

Cynnwys

**TGAU CBAC mewn
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
(Gradd Unigol a Chwrs Byr)**

**I'w Addysgu o 2010
I'w Ddyfarnu o 2011**

	Tudalen
Crynodeb o'r Asesiad	2
1. Rhagarweiniad	5
2. Cynnwys y Fanyleb	10
3. Cynllun Asesu	19
4. Dyfarnu, Adrodd ac Ailsefyll	26
5. Disgrifiadau o'r Graddau	27
6. Gweinyddu'r Asesiad dan Reolaeth	28
7. Y Cwricwlwm Ehangach	31
Atodiad 1 – Asesiad dan Reolaeth	34

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

CRYNODEB O'R ASESIAD

<p>Uned 1: Deall TGCh Gradd Unigol 20%; Cwrs Byr 40% Asesiad Allanol: 1½ awr</p>	80 marc (40 GMU)
<p>Bydd y papur arholiad hwn yn asesu gofynion y Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ac elfennau gweithredol TGCh yng nghyd-destun y cartref a'r ysgol.</p>	
<p>Uned 2: Datrys problemau gyda TGCh Gradd Unigol 30%; Cwrs Byr 60% Asesiad dan reolaeth: 22½ awr</p>	80 Marc (60 GMU)
<p>Mae'r asesiad dan reolaeth hwn yn cynnwys portffolio o waith sy'n dangos cyrhaeddiad ymgeiswyr wrth gaffael a dehongli gwahanol fathau o wybodaeth; defnyddio, datblygu a chyfathrebu gwybodaeth i fodloni pwrpas eu hastudiaethau a chyflwyno canlyniadau eu gwaith. Bydd yr aseiniad hwn yn asesu agweddau ymarferol elfennau gweithredol TGCh.</p>	
<p>Uned 3: TGCh mewn Sefydliadau Gradd Unigol 20% Asesiad Allanol: 1½ awr</p>	80 Marc (40 GMU)
<p>Bydd y papur arholiad hwn yn asesu cynnwys 'cymhwysiad' TGCh mewn cyd-destun busnes a diwydiant.</p>	
<p>Uned 4: Datblygu Datrysiadau TGCh Amlgyfrwng Gradd Unigol 30% Asesiad dan reolaeth: 22½ awr</p>	80 Marc (60 GMU)
<p>Bydd yr asesiad dan reolaeth hwn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddatblygu darn o waith gan ddefnyddio meddalwedd amlgyfrwng gan ddilyn gan briff tasg unigol y bydd CBAC yn ei gyhoeddi.</p>	

I gael **TGAU (Gradd Unigol)** mewn TGCh, mae'n ofynnol i ymgeiswyr astudio Uned 1, Uned 2, Uned 3 ac Uned 4.

I gwblhau **TGAU (Cwrs Byr)** mewn TGCh, mae'n ofynnol i ymgeiswyr astudio Uned 1 ac Uned 2.

CYFLEOEDD ASESU

	Cod Cofrestru*		Mehfin 2011	Ionawr 2012	Mehfin 2012
	Pwnc	Opsiwn*			
Uned 1	4331	W1 neu 01	✓	✓	✓
Uned 2	4332	W1 neu 01	✓		✓
Uned 3	4333	W1 neu 01		✓	✓
Uned 4	4334	W1 neu 01			✓
Gradd Unigol	4330	GU neu SA			✓
Cwrs Byr	4900	CB neu SC	✓		✓

***Codau Opsiwn**

Cyfrwng Cymraeg, W1, Cyfrwng Saesneg 01 – ar gyfer unedau
 Cyfrwng Cymraeg GU, Cyfrwng Saesneg SA – ar gyfer gradd unigol
 Cyfrwng Cymraeg CB, Cyfrwng Saesneg SC – ar gyfer y cwrs byr

Rhif Achredu'r Cymhwyster Gradd Unigol: 500/7935/9

Rhif Achredu'r Cymhwyster Cwrs Byr: 500/7932/3

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU (Gradd Unigol a Chwrs Byr)

1

RHAGARWEINIAD

1.1 Sail Resymegol

Mae cwrs mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn cynnig cyfle arbennig yn y cwricwlwm i ymgeiswyr adnabod a datrys problemau real trwy ddylunio systemau gwybodaeth a chyfathrebu mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau'n ymwneud â'u diddordebau personol. Mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn datblygu sgiliau rhyngddisgyblaethol ymgeiswyr a'u gallu o ran meddwl llawn dychymyg, arloesol, creadigrwydd ac annibyniaeth.

Mae'r fanyleb yn annog ymchwilio ac astudio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Yn y cyd-destunau hyn bydd cyfleoedd yn cael eu rhoi i ymgeiswyr i feithrin cymhwyster, gallu a sgiliau beirniadol trwy greu, gweithredu, defnyddio a gwerthuso amrywiaeth o systemau gwybodaeth a chyfathrebu. Gall ymgeiswyr o bob diwylliant ac o'r ddau ryw ddatblygu eu diddordeb mewn myfyrio beirniadol am dechnoleg gwybodaeth fel rhan annatod o'r gymdeithas fodern, a'i fwynhau.

Mae'r fanyleb hon wedi'i datblygu gan CBAC i roi'r cyfle i ymgeiswyr gael cymhwyster mewn:

TGAU (Gradd Unigol) Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
neu
TGAU (Cwrs Byr) Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Gellir cymryd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu fel cwrs byr annibynnol a bydd TGAU (Cwrs Byr) mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn cael ei dyfarnu i ymgeiswyr llwyddiannus. Mae TGAU (Cwrs Byr) yn ffurfio craidd y fanyleb TGAU: mae'n cynnwys hanner cynnwys y TGAU (Gradd Unigol) ac mae'n ymwneud â'r ystod lawn o raddau. Dyluniwyd y cwrs byr i'w gyflwyno mewn tua hanner amser y gradd unigol.

Mae ymgeiswyr TGAU (Gradd Unigol) yn sefyll dau bapur arholiad: ar gyfer Uned 1 ac uned 3. Mae hi hefyd yn ofynnol iddynt gyflwyno aseiniadau dan reolaeth ar gyfer uned 2 ac uned 4.

Mae ymgeiswyr TGAU (Cwrs Byr) yn cymryd papur arholiad uned 1 yn unig ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno aseiniad dan reolaeth ar gyfer uned 2.

Mae'r fanyleb hon:

- (a) wedi'i bwriadu i fod o ddiddordeb i amrywiaeth eang o ymgeiswyr gan gynnwys rhai sy'n bwriadu astudio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol neu Gyfrifiaduro Safon Uwch neu UG. Bwriedir i bob uned fod o fewn cyrraedd disgyblion gradd G tra'n darparu rhai elfennau a fydd yn heriol i'r rhai sy'n gweithio ar A*. Gall rhai disgyblion fynd ymlaen i ddilyn cwrs addysgu uwch neu yrfa mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu neu faes cysylltiedig. Gall y rhai sydd â diddordebau eraill hefyd elwa o'r sgiliau trosglwyddadwy niferus sy'n rhan annatod o astudio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- (b) yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a sefydlwyd gan Gyfnod Allweddol 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- (c) yn hyrwyddo dilyniant trwy TGAU ac yn rhoi sail addas ar gyfer astudio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol neu faes astudio perthnasol arall, ar Safon Uwch neu UG a/neu baratoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol a byd gwaith;
- (ch) yn rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr ennill dealltwriaeth eang o'r sgiliau, y ddealltwriaeth a'r wybodaeth sy'n rhan annatod o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- (d) yn annog ymgeiswyr i ddatblygu eu meddwl beirniadol, i weld y perthnasoedd rhwng y dyluniwr systemau a'r defnyddiwr, a rôl Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn y byd rydyn ni'n byw ynddo;
- (dd) yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu Sgiliau Allweddol/Hanfodol ymgeiswyr, yn enwedig y rhai mewn datrys problemau, defnyddio TG a chyfathrebu. Byddant hefyd yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau mewn cymhwyso rhif, gweithio gydag eraill a gwella'u dysgu a'u perfformiad eu hunain;
- (e) yn asesu elfennau gweithredol TGCh;
- (f) ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

1.2 Nodau a Chanlyniadau Dysgu

Dylai dilyn cwrs mewn TGAU Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu annog dysgwyr i gael eu hysbrydoli, eu cyffroi a'u newid trwy ddilyn cwrs astudio eang, cydlynol, boddhaus a gwerth chweil. Dylent helpu dysgwyr i gael dealltwriaeth o sectorau cysylltiedig. Dylent baratoi dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am gyfleoedd dysgu pellach a dewisiadau gyrfa.

Mae'r fanyleb hon mewn TGCh yn galluogi dysgwyr i:

- ddod yn ddefnyddwyr annibynnol a deallus o TGCh, sy'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am y defnydd ohoni a bod yn ymwybodol o'i goblygiadau i unigolion, sefydliadau a'r gymdeithas
- caffael a chymhwysu sgiliau technegol a chreadigol, gwybodaeth a dealltwriaeth o TGCh mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- datblygu datrysiadau TGCh i ddatrys problemau
- datblygu eu dealltwriaeth o dechnolegau cyfredol a rhai newydd a'u heffaith cymdeithasol a masnachol
- datblygu eu dealltwriaeth o'r materion cyfreithiol, cymdeithasol, economaidd, moesegol ac amgylcheddol y bydd TGCh yn eu codi
- adnabod risgiau posibl wrth ddefnyddio TGCh, a datblygu arfer diogel a chyfrifol
- datblygu'r sgiliau i weithio ar y cyd
- gwerthuso datrysiadau TGCh.

Mae'r fanyleb hon mewn TGCh yn gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- technolegau cyfredol a rhai newydd a'u heffaith ar unigolion, sefydliadau a'r gymdeithas
- amrywiaeth o offer a thechnegau TGCh a'r ffyrdd y maen nhw'n cael eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau i ddatblygu syniadau ac i ddatrys problemau
- goblygiadau cyfreithiol, cymdeithasol, economaidd, moesegol ac amgylcheddol y defnydd o TGCh i unigolion, sefydliadau a'r gymdeithas, materion risg, diogelwch a'r defnydd cyfrifol o TGCh.
- gweithio ar y cyd.

Mae'r fanyleb hon mewn TGCh yn gofyn i ddysgwyr ddangos y gallu i:

- feddwl yn greadigol, yn rhesymegol ac yn feirniadol
- dewis, defnyddio ac integreiddio offer a thechnegau TGCh i fodloni anghenion
- canfod, dethol a gwerthuso gwybodaeth o ran ei pherthnasedd, ei gwerth, ei chywirdeb a'i chredadwyedd
- trafod a phrosesu data a gwybodaeth arall, rhoi trefn ar gyfarwyddiadau dilyniant, modelu sefyllfaoedd ac archwilio syniadau
- cyfathrebu data a gwybodaeth mewn ffurf addas i'w pwrpas ac i'r gynulleidfa
- mabwysiadu arfer diogel a chyfrifol wrth ddefnyddio TGCh
- datblygu datrysiadau TGCh addas ac effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- gwerthuso eu defnydd eu hunain a defnydd pobl eraill o TGCh.

1.3 Dysgu Blaenorol a Dilyniant

Er nad oes gofyniad penodol am ddysgu blaenorol, mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y Rhaglenni Astudio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghyfnod Allweddol 1-3. Gall unrhyw ymgeisydd ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw, cefndir diwylliannol, crefyddol neu ethnig.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oed, ac fel y cyfryw, mae'n rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr estyn eu dysgu gydol oes.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y Rhaglen Astudio ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghyfnod Allweddol 3 ac yn caniatáu i ymgeiswyr roi sylw llawn i'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y gofynnir amdanynt gan y Gorchymyn Cwricwlwm Cenedlaethol am Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

Er nad oes gofyniad penodol am ddysgu blaenorol ym manyleb CBAC TAG Uwch Gyfrannol/Uwch mewn TGCh, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Cymhwysol neu Gyfrifiaduro, mae llwybr dilyniant clir o'r fanyleb hon.

1.4 Cydraddoldeb ac Asesu Teg

Mae TGAU yn aml yn gofyn am asesu ystod eang o gymwyseddau. Y rheswm am hynny yw oherwydd eu bod yn gymwysterau cyffredinol ac felly'n paratoi ymgeiswyr am amrywiaeth eang o alwedigaethau a chyrsoedd o safon uwch.

Cafodd y meini prawf cymhwyster a phwnc TGAU eu hadolygu i ganfod a oedd unrhyw rai o'r cymwyseddau yr oedd eu hangen ar y pwnc yn creu rhwystr posibl i unrhyw rai o'r chwe maes cydraddoldeb: hil, crefydd/cred, anabledd, oed, gogwydd rhywiol, rhywedd. Ni chanfuwyd dim. Tra y cydnabyddir nad yw rhai grwpiau crefyddol/cred a phobl â mathau penodol o gyflyrau meddygol yn ymwneud â TGCh, nid oes rhwystrau sy'n annatod ym meini prawf y cymhwyster a fyddai'n rhwystro mynediad i'r cymhwyster. Gall agweddau o'r gwaith tîm fod yn anodd i rai dysgwyr ond ni ddylent fod yn rhwystr. Gellir dangos gwaith tîm trwy ddefnyddio strategaethau dysgu cefnogol a phriodol. Mae trafod TGCh yn anoss i rai dysgwyr anabl ond mae meddalwedd a thechnolegau newydd ar gael i oresgyn rhwystrau posibl ac nid oes unrhyw ran o'r cymhwyster yn debygol o alw am eithrio dysgwyr anabl.

Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer ymgeiswyr anabl fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd. Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau sef *Rheoliadau ac Arweiniad yn Ymwneud ag Ymgeiswyr sy'n gymwys am Addasiadau mewn Arholiadau*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor (www.jcq.org.uk) ac yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

Efallai y bydd ymgeiswyr na fydd rhan sylweddol o'r asesiad o fewn eu cyrraedd o hyd, hyd yn oed ar ôl archwilio pob posibilrwydd trwy addasiadau rhesymol, yn dal i allu derbyn dyfarniad. Byddent yn cael gradd ar sail y rhannau o'r asesiad a gymerwyd ganddynt a byddai'n cael ei nodi ar eu tystysgrif nad yw'r holl gymwyseddau wedi'u cyflawni. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu ac efallai y caiff ei newid yn y dyfodol.

1.5 Codau Dosbarthu

Dynodir cod dosbarthu cenedlaethol i bob manyleb sy'n nodi i ba faes pwnc y mae'n perthyn. Cod dosbarthu'r fanyleb hon yw **2650**.

Dylai canolfannau fod yn ymwybodol os bydd ymgeiswyr yn cofrestru am fwy nag un cymhwyster TGAU gyda'r un cod dosbarthu, mai ond un radd yn unig (yr uchaf) fydd yn cael ei chyfrif at ddibenion Tablau Perfformiad Ysgolion a Cholegau.

Efallai y bydd canolfannau am roi gwybod i ymgeiswyr, os byddan nhw'n cymryd dwy fanyleb gyda'r un cod dosbarthu, y bydd ysgolion a cholegau'n debygol iawn o gymryd y safbwynt mai dim ond un o'r ddwy TGAU y maent wedi ei hennill. Gellir cymryd yr un safbwynt os yw ymgeiswyr yn cymryd dwy fanyleb TGAU sydd â gwahanol godau dosbarthu ond sydd â gorgyffwrdd sylweddol o ran cynnwys. Dylai ymgeiswyr sydd ag unrhyw amheuan am eu cyfuniadau pwnc wirio gyda'r sefydliad y maen nhw am fynd ymlaen iddo cyn cychwyn ar eu rhaglenni.

2

CYNNWYS Y FANYLEB

Mae cynnwys y fanyleb yn ymgorffori Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Sgiliau Hanfodol / Sylfaenol ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i nodi mewn print italig yn ffurfio cynnwys arholiad yr uned 1, sy'n berthnasol i'r dyfarniad cwrs byr ac i'r radd unigol; mae'r gweddill yn ffurfio cynnwys arholiad uned 3, sy'n berthnasol i'r radd unigol yn unig.

Cynnwys

Mae'r dysgwyr yn gallu:

Data ac Ansawdd data Data a gwybodaeth

Gwerthuso data o ran bod yn addas i'r pwrpas, cywirdeb a gogwydd. Deall

- *bod data'n cynnwys ffeithiau a ffigurau crai e.e. darlenniadau o synwryddion, ffeithiau arolwg, ac ati*
- *mai data wedi eu prosesu gan y cyfrifiadur yw gwybodaeth (information)*
- *bod gwybod (knowledge) yn cael ei ddeillio o fanylion trwy gymhwysu rheolau iddynt*
- *yr angen am ddata o ansawdd da G.I.G.O. Sbwriel i Mewn, Sbwriel Allan (Garbage In, Garbage Out)*
- *manteision posibl amgodio data a'r rhesymau dros wneud hyn*
- *cyflymder gwell mynediad i ddata*
- *manteision ac anfanteision defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i storio data.*

Dilysu data

Diffinio dilysu a gwireddu.

Gwybod y dulliau sy'n cael eu defnyddio i ddilysu ac i wireddu ac ymhle maen nhw'n briodol.

Adnabod:

- *technegau dilysu data ar gyfer systemau ar-lein a defnyddiwr unigol fel gwiriadau ystod, gwiriadau fformat, gwiriadau presenoldeb a digidau gwirio.*
- *mathau posibl o wallau a deall dulliau ar gyfer lleihau'r risg o wallau*

Disgrifio'r canlynol:

Gwireddu

- prawf paredd
- bysellu dwbl
- gwiriad gweledol

Dilysu

- swp-gyfansymiau
- cyfansymiau stwnsh

Deall:

- *ffynonellau gwall posibl a allai fodoli*
- *y technegau sy'n cael eu defnyddio i oresgyn y gwallau hyn.*

Adloniant cartref

Deall y defnydd, y gwasanaethau, a'r dyfeisiau mewnbwn ac allbwn sy'n cael eu defnyddio gyda:

- gwasanaethau teledu rhyngweithiol talu-i-wyllo, e.e. siopa, betio, pleidleisio, canlyn (dating)
- chwarae: ar-lein a chonsolau gemau
- ffotograffiaeth ddigidol sylfaenol: technoleg cipio, storio a thrafod syml delweddau gan gynnwys camerâu, megapicseili, cof fflach, dyfeisiau dangos a meddalwedd golygu lluniau.
- gwasanaethau gwe-gamera
- rhwydweithio cymdeithasol: Gwybodaeth angenrheidiol i greu cyfrifon, gwasanaethau sydd ar gael
- cerddoriaeth a sain gan gynnwys llwytho i lawr o'r Rhyngrwyd a materion cysylltiedig
- ffonau symudol.

Disgrifio manteision ac anfanteision pob un o'r gwasanaethau hyn.

Systemau cyfathrebu'r cartref a rhai personol

Deall sut gall cyfrifiaduron gael eu cysylltu â'r Rhyngrwyd:

- band eang
- lloeren
- cyfathrebu symudol
- deialu
- cebl.

Deall:

- diwifr
- bluetooth
- technolegau cysylltu newydd eraill
- Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS).

Disgrifio buddiannau, manteision ac anfanteision y technolegau hyn.

Busnes cartref

Deall y defnydd o gyfrifiaduron wrth:

- siopa ar-lein a chwilio am gynnyrch ar wefanau
- bwcio ar-lein
- gwireddu (verification) (cyfrineiriau a ffurflenni bwydo data ar-lein).

Disgrifio manteision ac anfanteision gwasanaethau bwcio a siopa ar-lein.

Sefydliadau: Ysgol, y cartref, yr amgylchedd

Deall a disgrifio manteision ac anfanteision:

- systemau cofrestru ysgolion
- systemau gwybodaeth rheoli mewn ysgolion
- logio data mewn gweithgareddau ysgol
- systemau rhagweld y tywydd.

Technolegau newydd

Bod yn ymwybodol o dechnolegau cyfredol a datblygedig a'u heffaith arnyn nhw eu hunain ac ar eraill yn y cartref, yr ysgol a'r amgylchedd.

Disgrifio manteision ac anfanteision technolegau yn y cartref, yn yr ysgol a'r amgylchedd.

TGCh a dysgu

Deall amgylchedd bwrdd gwaith

Deall sut i reoli'r amgylchedd bwrdd gwaith gan gynnwys nodweddion fel:

- addasu maint ffenestr, gosodiadau llygoden, maint eiconau, cydraniad sgrin, ffontiau bwrdd gwaith, lliw, safle, graffeg, cyferbyniad a sain i fodloni eu hanghenion eu hunain
- symud, copïo, dileu, ailenwi ffeiliau a ffolderi
- cymorth ar-sgrin
- nodweddion panel rheoli
- gosodiadau argraffu
- gwarchod â chyfrinair
- llwybrau byr.

Deall nodweddion a manteision ac anfanteision:

- tiwtorialau ar-lein e.e. BBC bitesize
- asesu ar-lein e.e. arholiadau
- Rhith-amgylcheddau Dysgu (VLEs).

Dyfeisiau dysgu i gefnogi anabledau

Deall y defnydd o ddyfeisiau mewnbwn fel:

- bysellfyrddau braille
- dyfeisiau arbenigol fel microffonau
- dyfeisiau bwydo data sensitif i gyffyrddiad

Meddalwedd i gefnogi anabledau dysgu
Gwasanaethau dysgu o bell ar ar-lein

Deall y defnydd o:

- meddalwedd adnabod llais
- meddalwedd testun i lais
- amgylcheddau bwrdd gwaith wedi'u teilwra

Meddalwedd rhaglenni

Deall ac adnabod ffynonellau addas o wybodaeth, gan gynnwys ffeiliau ar ddisgiau, CD-ROMau, cronfeydd data, y Rhyngwyd.

Deall pwrpas a'r defnydd priodol o feddalwedd rhaglenni.

Meddalwedd trin gwybodaeth

Gwybod pryd y mae'n briodol:

- diweddarau neu ddileu cofnodion
- trefnu gwybodaeth mewn trefn Ddisgynnol ac Esgynnol
- chwilio am wybodaeth gan ddefnyddio meini prawf unigol a lluosog.

Deall y defnydd priodol o weithredwyr gan gynnwys =, < >, <, >, 'AC', 'NEU', 'LIKE'.

Bod â dealltwriaeth sylfaenol o fath data gan gynnwys rhif, testun, dyddiad, amser, arian cyfred, math Boole, rhestri, darlun, sain, fideo.

Adnabod meysydd a chofnodion mewn ffeil.

Adnabod a deall pwrpas y 'maes allweddol'.

Chwilio am wybodaeth gan ddefnyddio offer fel peiriannau chwilio, chwiliadau allweddeiriau, ac ati.

Deall:

- Allbynnu data mewn fformatau adroddiad
- sut caiff meysydd cyfrifedig syml eu cynhyrchu
- pwrpas a chymhwysiad addas o dechnegau dilysu fel 'rhestri', 'gwiriadau ystod', 'gwiriadau fformat', a 'masgiau mewnbwn' ar gyfer meysydd cyffredin.

Deall manteision defnyddio trin gwybodaeth ar gyfer:

- cyrchu data yn gynt
- amrywiaeth o fformatau allbwn
- cyfanrwydd data.

Materion diogelwch

Deall:

- gwarchod â chyfrinair a phrotocolau cyfrinair
- hawliau cyrchu data
- gweithdrefnau copïau wrth gefn

E-bost

Deall sut i:

- greu e-bost
- greu neges a llofnod safonol sy'n mynd allan
- anfon yr e-bost i un cyfeiriad e-bost arall
- anfon e-bost grŵp
- defnyddio cc a bcc
- defnyddio atodiadau ffeil
- danfon e-bost ymlaen i gyfeiriad e-bost arall
- greu a rheoli llyfr cyfeiriadau
- greu a chadw cysylltiadau
- trefnu ac enwi grwpiau a ffolderi e-bost

Diogelwch

Trafod manteision ac anfanteision defnyddio e-bost

Deall mesurau priodol i atal camddefnydd e.e. firsau, iaith fygythiol

Meddalwedd taenlenni

Deall:

- y gwahaniaeth rhwng labeli, data a fformiwla
- fformiwlaau a ffwythiannau i gyfrifo gwybodaeth fel SWM, CYFARTALEDD neu OS [SUM, AVERAGE neu IF]
- cyfeirnod celloedd perthynol ac absoliwt
- technegau fformatio priodol e.e. borderi, arian cyfred
- cyfuno celloedd.

Deall manteision defnyddio taenlenni ar gyfer:

- newid gwybodaeth mewn model o daenlen i wneud ac i brofi rhagfynegiadau (ymchwiliadau Beth os)
- cynhyrchu gwahanol siartiau a graffiau o ddata addas
- cyfrifiadau manwl gywir
- ailgyfrifo awtomatig

Logio data a Rheoli

Deall:

- proses logio data
- gwahanol fathau o synhwyrdd a defnyddiau addas ar eu cyfer
- sut i ysgrifennu dilyniant o gyfarwyddiadau i reoli delwedd sgrin neu ddyfais allanol yn briodol
- defnyddio TGCh i reoli ac i fonitro meysydd o fywyd bob dydd fel teganau electronig, gemau, systemau gwres canolog, larymau lladron, mesuryddion clyfar, systemau diogelwch, drysau awtomatig, systemau rheoli traffig, systemau parcio ceir, systemau rheoli tai gwydr a roboteg, efelychiad (er enghraifft hedfan neu yrru)

Trafod manteision ac anfanteision:

- logio data cyfrifiadurol
- rheoli cyfrifiadur (di-adborth ac adborth)

Meddalwedd CBG

(Cyhoeddi Bwrdd Gwaith)

(DTP)

Deall pwrpas a defnydd y canlynol:

- gwirydd sillafu
- thesawrws ar-lein
- postgyfuno
- rheolweithiau awtomatig fel: dalenni arddull, penynnau a throedynnau, tudaleniad a chynhyrchu cynnwys yn awtomatig.

Adnabod, defnyddio a lle y bo'n briodol gwerthuso technegau fel:

- newid mewn math ffont, arddull a maint
- unioni (chwith, canol ac unioni llawn)
- mewnfario gwahanol fformatau ffeil e.e. clipluniau, csv, txt, rtf, ac ati.
- tablu
- tablau
- borderi
- gofod llinell sengl a dwbl
- trafod graffeg fel ailfeintio, tocio, cylchdroi a drychddelwedd
- awtosiapiau
- dyfrnodau.

Meddalwedd Gwe a Chyflwyno

Deall y defnydd priodol o arfer da wrth ddylunio cyflwyniadau gwe a sleidiau gan gynnwys:

- cyfarwyddiadau dilyniannu
- animeiddiadau
- trawsnewidiad
- cysylltau
- ystyried y gynulleidfa darged
- defnydd priodol o dechnegau llywio safonol
- ystyriaethau anabled e.e. sain, meintiau ac arddull ffont, naid-sylwadau ar ddelweddau.

Disgrifio manteision ac anfanteision technegau cywasgu data ar gyfer delweddau, lluniau symud (*movies*), sain, tudalennau a sleidiau.

Meddalwedd Gwe

Deall meddalwedd pori:

- url
- chwiliadau allweddeiriau
- cysylltau
- dewislenni.

Dadansoddi tudalennau gwe sy'n bod.

Chwilio am dudalennau gwe a chwilio arnynt.

Gwneud cymariaethau ar arddull cwmni, cynulleidfa, maint a thechnegau a ddefnyddiwyd.

Defnyddio nodweddion rhyngweithiol fel ffurflenni ar-lein, e-bost, gemau, cwisiau a holiaduron.

Offer a Thechnegau ar gyfer creu gwefannau

Deall a defnyddio:

- prif dudalennau/templodi
- tudalen gartref
- llywio safle
- triongl aur
- hypergysylltau
- hypergysylltau graffigol/mannau poeth/botymau hofran a chysylltau polygon
- nodau tudalen/ angorau
- barrau llywio
- byrddau arwain
- baneri
- eiconau gwe e.e. troli siopa, e-bost
- html.

Trafod materion gyda lletya gwefannau a ffactorau sy'n effeithio ar amserau llwytho i fyny.

Disgrifio manteision ac anfanteision:

- defnyddio tudalennau gwe a'r gwahanol nodweddion sy'n cael eu defnyddio arny'n nhw
- lliwiau RGB; cod degol a hecsadegol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer lliw.

Meddalwedd cyflwyno
Offer a thechnegau ar gyfer creu cyflwyniadau sleidiau

Deall a defnyddio:

- templodi dylunio
- animeiddio
- trawsnewidiadau ac amseru
- fideo a sain
- nodau tudalen llywio, hypergysylltau a manau poeth
- nodiadau adroddiad a siarad
- fformatau argraffu.

Disgrifio manteision ac anfanteision meddalwedd cyflwyno.

<u>Amlgyfrwng</u>	<p>Dangos dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddatblygiadau cyfredol yn y diwydiant amlgyfrwng a'u heffeithiau ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • addysg • adloniant • busnes • cymdeithas.
Elfennau amlgyfryngau Caledwedd	<p>Dangos ymwybyddiaeth o dueddiadau cyfredol a rhai'r dyfodol yn y maes amlgyfrwng.</p> <p>Deall gofynion systemau amlgyfrwng o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sgriniau: maint a chydraniad • dyfeisiau mewnbwnnu: llygoden, byrddau graffeg, dyfeisiau mewnbwn sensitif i gyffyrddiad, meicroffon • nodweddion camerâu digidol llonydd a fideo, gwe-gamerâu, megapicseli amrywiol • Midi a rhyngwynebau mewnbwn neu allbwn arbenigol eraill.
Gofynion cof Meddalwedd	<p>Deall a gwneud defnydd priodol o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cof mewnol a storfa gopiö • golygu ffotograffig digidol • gwneud ffilmiau • animeiddio • cerddoriaeth • sain
Elfennau rhyngweithiol	<ul style="list-style-type: none"> • chwiliadau allweddeiriau • cwisiau • holiadur • gemau • cysylltau. <p>Disgrifio manteision ac anfanteision defnyddio meddalwedd amlgyfrwng. Trafod gwahaniaethau rhwng technegau ar gyfer storio testun, delweddau, sain a fideo.</p> <p>Disgrifio manteision ac anfanteision technegau o'r fath.</p>
<u>Delweddu digidol</u> Graffigwaith fector a didfap	<p>Deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • technegau graffigol fector a didfap a'u goblygiad o ran maint cof a'u trafod • dimensiynau picseli (picseli y fodfedd/cm) a manteision a phroblemau gydag ailfeintio delweddau ar gyfer y defnydd gorau ohonynt • cydraniad sgrin a gofynion cof am wahanol gefndiroedd (tryloyw, gwyn, lliw).
Offer a thechnegau ar gyfer creu a thrafod delweddau llonydd	<p>Disgrifio manteision graffeg fector dros graffeg didfap</p> <p>Defnyddio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • offer safonol: chwyddo, dethol, trawsffurfio, graddio a meintio, gosodiadau brwsh, aflunio, symud, clonio, cylchdroi, haenu, toglo rhwng haenau • effeithiau lliw, paletau lliw ac offer graddiant • effeithiau delweddu • effeithiau tryloywedd • patrymu cyfansawdd (patrymau wedi'u hailadrodd). <p>Deall y defnydd o'r canlynol, a'u manteision a'u hanfanteision posibl: bmp, jpeg, gif, tiff, eps a fformatau cyffredin eraill.</p>

<p><u>Animeiddio</u> Tarddiadau animeiddio Prosesau animeiddio</p>	<p>Cymharu a chyferbynnu gwahanol dechnegau animeiddio Deall:</p>
<p>Defnyddiau mewn amgylcheddau masnachol a dysgu</p>	<ul style="list-style-type: none"> • dyfalwch technegau golwg • llyfrau troi • animeiddio stop-symudiad • animeiddio fflach/ffrâm allwedd • animeiddio 3D. <p>Deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwneud ffilmau a diwydiannau effeithiau arbennig • Rhith Amgylcheddau Dysgu, Gwefannau addysgol • animeiddiadau ar gyfer y we • adnabyddiaeth trwy logos • baneri safonol ar gyfer tudalennau gwe/byrddau arwain.
<p>Offer a thechnegau ar gyfer creu delweddau wedi'u hanimeiddio</p>	<p>Disgrifio manteision ac anfanteision animeiddio mewn amgylcheddau masnachol ac addysgol.</p> <p>Cynllunio animeiddiad: canghennau ffolderi, byrddau stori. Dangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa: byrddau naw Deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • effaith amrywiaeth o gyfraddau ffrâm a dolennu • animeiddiad fector a didfap • technegau animeiddio clai a phicsileiddio • rotoosgopio • gwaith rhyngluniau (<i>tweening</i>) a haenau tryloyw (<i>onion skinning</i>) • grwpio, clonio, cefnlenni. <p>Deall y defnydd ohonynt a manteision ac anfanteision posibl gwahanol fformatau fel gif, cgm, png ac ati.</p>
<p><u>Sain a cherddoriaeth</u> Caledwedd</p>	<p>Deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dyfeisiau storio sain e.e. Chwaraewyr MP3 • cardiau sain • dyfeisiau mewnbynnu fel microffonau a Rhyngwynebau Midi • seinyddion • trosi sain analog i ddigidol a digidol i analog • dilynianwyr (stiwdios recordio amldrac) • nodianwyr (meddalwedd cyfansoddi cerddoriaeth) • Golygyddion Tonnau Sain • llwytho cerddoriaeth i lawr. <p>Trafod problemau posibl wrth gipio a defnyddio sain o ran hawlfraint. Deall y defnydd o wahanol fformatau fel wav, wma, mp3 ac ati a'u manteision a'u hanfanteision posibl.</p>
<p><u>Meddalwedd</u></p>	<p>Deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dyfeisiau storio sain e.e. Chwaraewyr MP3 • cardiau sain • dyfeisiau mewnbynnu fel microffonau a Rhyngwynebau Midi • seinyddion • trosi sain analog i ddigidol a digidol i analog • dilynianwyr (stiwdios recordio amldrac) • nodianwyr (meddalwedd cyfansoddi cerddoriaeth) • Golygyddion Tonnau Sain • llwytho cerddoriaeth i lawr. <p>Trafod problemau posibl wrth gipio a defnyddio sain o ran hawlfraint. Deall y defnydd o wahanol fformatau fel wav, wma, mp3 ac ati a'u manteision a'u hanfanteision posibl.</p>
<p><u>Rhwydweithiau</u> Mathau o rwydweithiau</p>	<p>Gwybod y gwahaniaethau rhwng rhwydweithiau ardal leol (LAN) a rhwydweithiau ardal eang (WAN). Deall a disgrifio gweithrediad rhwydwaith cyfrifiadur a dyfeisiau fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • topolegau rhwydwaith gan gynnwys bws, seren a chylch • Rhyngrwyd / Allrwyd / Mewnrwyd • llwybryddion • switsys • pyrth • pontydd • switsio pecynnau.
<p>Cysylltu LANau a WANau</p>	<p>Cymharu manteision ac anfanteision systemau rhwydwaith o'u cymharu â chyfrifiaduron arunig. Deall a disgrifio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • systemau pwynt talu integredig (PoS) • systemau rheoli stoc awtomatig

Rhyngwynebau Dynol y Cyfrifiadur (HCIs)

Deall sut mae system weithredu'n gweithio
Adnabod a disgrifio nodweddion a'r defnydd o wahanol fathau o ryngwyneb defnyddwyr gan gynnwys:

- llinell orchymyn
- GUI (rhyngwyneb defnyddwyr graffigol)
 - WIMP (ffenestri, eiconau, llygoden/dewislen, pwyntydd) [windows, icons, mouse/menu, pointer]
 - gwas y swyddfa (*office assistants*), tiwtorialau ar-lein
 - byrddau gwaith wedi'u teilwra
- cymwysiadau wedi'u gyrru â llais
- dewislen/blychau deialog
- cymwysiadau sensitif i'r cyffyrddiad e.e. ffonau symudol, cymhorthion dysgu a systemau PoS
- biometreg e.e. retina, DNA, olion bysedd, cerdded, ac ati.

Trafod manteision ac anfanteision pob HCI.

Sefydliadau

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gymwysiadau cyfrifiadur.
Gwybod:

- sut caiff data eu cipio, eu gwirio a'u bwydo
- pa ddull prosesu sy'n cael ei ddefnyddio, h.y. swp, amser real trafod amser real
- beth yw gofynion lleiaf y caledwedd a'r meddalwedd
- sut caiff y wybodaeth ei hallbynnu
- beth yw'r goblygiadau o ran diogelwch.

Disgrifio:

- strwythurau data, ffeil neu gronfa ddata addas
- systemau cyfrifiadur addas gan gynnwys cipio data, allbynnu a dyfeisiau cyfathrebu
- offer meddalwedd addas a thechnegau sy'n cael eu defnyddio wrth brosesu a chyflwyno'r data
- gwireddu dilysu a diogelwch addas a systemau copïo wrth gefn sy'n gysylltiedig â phob un o'r sefydliadau neu'r cymwysiadau canlynol:

- bancio
- systemau e-fasnach
- cyflogres
- dulliau trin post modern
- prosesau rheoli (adborth)
- roboteg a bioneg
- Deallusrwydd Artiffisial (AI) a systemau arbenigo

Gwybod a deall:

Dulliau gwarchod data

- amddiffyniad corfforol e.e. copïau wrth gefn
- mynediad corfforol cyfyngedig e.e. sganiau biometrig
- mynediad cyfyngedig i ddata e.e. hierarchaeth cyfrineiriau a hawliau mynediad, amgryptio
- monitro e.e. logiau trafod.

Effaith gymdeithasol ac amgylcheddol

Ystyried yn feirniadol effaith TGCh ar eu bywyd eu hunain ac ar fywyd pobl eraill, gan ystyried materion cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, cyfreithiol, moesegol a moesol. Deall materion yn ymwneud â:

- phatrymau cyflogaeth
- ailhyfforddi
- newidiadau mewn arferion gweithio (cydweithredu)
- teleweithio
- gweithio o'r cartref
- fideo-gynadledda
- yr effaith amgylcheddol
- yr effaith ar gymunedau cyfoethog a thlawd
- technolegau newydd.

Materion cyfreithiol a moesegol

Gwybod a deall:

- darpariaethau'r Ddeddf Gwarchod Data (DPA) 1998
 - hawliau testun y data a'r deiliad
 - eithriadau o'r DPA
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990
- Deddf Cyfathrebiadau Electronig 2000
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch
- *materion yn ymwneud â chamddefnyddio hawlfraint.*

Adnabod troseddau newydd sydd wedi'i greu a'r goblygiadau o ran defnyddwyr cyfrifiaduron.

Aros yn Ddiogel Ar-lein

Deall y peryglon cysylltiedig â:

- *datgelu data personol*
- *camddefnyddio delweddau*
- *defnyddio iaith amhriodol.*

Deall codau ymddygiad ar gyfer amddiffyniad personol

Trafod camau priodol i osgoi datgelu gwybodaeth bersonol yn amhriodol.

Materion gwarchod data

Gwybod :

- *sut i warchod data rhag cael eu dinistrio'n ddamweiniol*
- *sut i warchod data rhag niwed bwriadol sy'n cael ei achosi gan firsau a mathau eraill o niwed maleisus*
- *sut i warchod data wedi'u storio neu eu trosglwyddo rhag cael eu cyrchu heb awdurdod.*

Materion iechyd

Nodi peryglon iechyd posibl wrth ddefnyddio cyfrifiaduron.

Awgrymu dulliau ar gyfer atal neu leihau risg peryglon posibl i iechyd.

Technolegau newydd

Bod yn ymwybodol o dechnolegau cyfredol a rhai newydd mewn cyd-destunau busnes a masnachol.

Disgrifio manteision ac anfanteision technolegau newydd mewn cyd-destunau busnes a masnachol.

3

CYNLLUN ASESU

3.1 Cynllun Aseu

Mae asesu ar gyfer TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn ddihaen, h.y. mae pob uned yn darparu ar gyfer yr ystod lawn o allu ac yn caniatáu mynediad i raddau A*-G.

Mae'r fanyleb yn defnyddio amrywiol dechnegau asesu i alluogi'r ymgeiswyr i ymateb yn graffigol ac mewn ysgrifen trwy waith ymarferol a gwaith archwilio. Bydd chwe deg y cant o'r marciau yn cael eu rhoi i aseiniadau dan reolaeth sy'n cael eu hasesu'n fewnol, sy'n caniatáu i ymgeiswyr gael profiad o amrywiaeth o rolau perthnasol i dechnoleg gwybodaeth: defnyddiwr, dyluniwr, gwneuthurwr, rheolwr a chleient. Bydd asesu trwy aseiniadau dan reolaeth hefyd yn galluogi canolfannau i ymateb yn gadarnhaol ac yn gyflym i ddatblygiadau ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Bydd y pedwar deg y cant sy'n weddill o'r asesiad terfynol yn cael ei roi am arholiadau fydd yn cael eu gosod yn allanol i brofi'r ystod gallu lawn.

Caiff pump y cant o'r marciau sydd ar gael ym mhob un o'r arholiadau allanol a'r asesiadau dan reolaeth eu neilltuo i asesu ansawdd cyfathrebu ysgrifenedig yr ymgeisydd (yn Gymraeg neu Saesneg fel y bo'n briodol).

Bydd y cynllun asesu'n cynnwys:

Uned 1 Deall TGCh
Arholiad 1½ awr (Gradd Unigol 20%; Cwrs Byr 40%)
Bydd CBAC yn gosod arholiad theori bob sesiwn gyda chwestiynau'n ymwneud â chyd-destun y cartref a'r ysgol. Gall y meysydd canlynol gael eu hasesu:
Data a gwybodaeth; Dilysu data Gwireddu (cyfrineiriau a ffurflenni bwydo data ar-lein)
<u>Adloniant cartref</u> <ul style="list-style-type: none"> • Teledu rhyngweithiol • Gemau • Ffotograffiaeth ddigidol sylfaenol • Gwasanaethau gwegamera • Rhwydweithio cymdeithasol • E-bost • Cerddoriaeth
<u>Systemau cyfathrebu'r cartref a rhai personol</u> <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau band eang a chebl • Technoleg Ddiwifr a Bluetooth • Ffonau symudol • Cymhorthion Digidol Personol (PDAs) • Systemau GIS
<u>Busnes cartref</u> <ul style="list-style-type: none"> • Siopa ar-lein a chwilio am wefannau a chwilio arnyn nhw • Archebu ar-lein

<p><u>Sefydliadau: Yr ysgol, y cartref, yr amgylchedd</u></p> <ul style="list-style-type: none">• Systemau cofrestru ysgolion• Systemau gwybodaeth rheoli mewn ysgolion• Logio data mewn gweithgareddau ysgol• Systemau rheoli (di-adborth) gan gynnwys cyfarwyddiadau dilyniannu <i>teganau electronig, gemau, systemau gwres canolog, larymau lladron, mesuryddion call</i>• Systemau rhagweld y tywydd
<p><u>TGCh a dysgu</u></p> <ul style="list-style-type: none">• Deall amgylchedd bwrdd gwaith• Dyfeisiau dysgu i gefnogi anabledau• Meddalwedd Cyhoeddi Bwrdd Gwaith, Cyflwyno, Cronfa ddata, Taenlen ac Amlgyfrwng• Gwasanaethau ar-lein/dysgu o bell
<p><u>Bod yn ddiogel</u></p> <ul style="list-style-type: none">• Ar-lein• Materion iechyd• Materion yn ymwneud â gwarchod data.• Deddf Hawlfraint: Materion yn ymwneud â chamddefnyddio hawlfraint• Codau ymddygiad ar gyfer amddiffyniad personol
<p><u>Technolegau Newydd</u></p>

Uned 2 Datrys problemau gyda TGCh
Asesiad dan reolaeth 22.5 awr (Gradd Unigol 30%; Cwrs Byr 60%)
Bydd CBAC yn gosod aseiniad gwahanol bob blwyddyn i'w gwblhau gan ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd i ddangos gallu i gymhwyso sgiliau TGCh yn ymarferol gan gynnwys Sgiliau Hanfodol (Cymru). Y meysydd canlynol fydd yn cael eu hasesu:
<p><u>Trefnu ffolderi a ffeiliau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Ffolderi a ffeiliau gydag enwau cywir Enwi rhesymol a defnyddio is-ffolderi a ffeiliau Rheoli fersiynau Tystiolaeth o o leiaf ddau weithrediad ffolder gwahanol (copïo, symud, ailenwi, ac ati...) Gwaith copïo wrth gefn ar ddyfais allanol
<p><u>Cyfathrebu Gwybodaeth</u></p> <p>Creu dogfen a chyflwyniad at wahanol bwrpasau</p> <ul style="list-style-type: none"> • O leiaf un drafft a chopi terfynol o bob un • Adolygu a gwneud sylwadau • Cynhyrchiad ansawdd terfynol yn ymateb i sylwadau • Cywirdeb a chredadwyedd <p>Defnyddio diwyg tudalen priodol a datblygu a fformatio data</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ffontiau a meintiau • Defnyddio technegau fformatio syml e.e. trwm, alinio testun, lliw, ffontiau • Defnyddio Wordart neu forderi, awtosiapiau, tablau syml neu dempledi gwreiddiol • Bwledi neu rifo syml <p>Defnyddio delweddau, sain neu fideo</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mewnsood, tocio neu ailfeintio a lleoli delwedd yn addas i'r pwrpas • Cyfuno testun â gwybodaeth ar wahanol ffurfiau o <i>lyfrgell</i> e.e. delweddau, sain, fideo Gif <p>Datblygu a fformatio data</p> <ul style="list-style-type: none"> • e.e. Gwella tablau gyda borderi, cyfuno celloedd, cyfeiriad testun neu gylchdroi; cylchdroi neu wella trafod delweddau; bwledi wedi'u teilwra gan ddefnyddio cyfleusterau <i>mewnol</i>; rhifo gydag isrifo; Defnyddio fformiwlâu mewn dogfen e.e. anfonebau ac ati. • Defnyddio ail ffynhonnell wahanol ar gyfer data e.e. delwedd ddigidol, sain, graff gwreiddiol, postgyfuno, ac ati. • Penynnau neu droedynnau NEU Rifo tudalennau NEU Macros (<i>chwarae a recordio macros</i>)
<p><u>Modelu</u></p> <p>Creu a defnyddio model taenlen</p> <p>Cywirdeb a chredadwyedd</p> <p>Datblygu a threfnu data rhifiadol yn addas i'r pwrpas</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arian cyfred, %, Lleoedd degol, neu grid • Defnyddio fformiwla gydag un gweithredydd • Gweithred syml e.e. SWM, CYFARALEDD, MWYAFSWM, ISAFSWM, HAP ac ati [SUM, AVERAGE, MAX, MIN, RAND] • Cyfeirnod perthynol • Creu siart gyda theitl priodol, allwedd, labeli echelin a fformatio. • Ymchwiliad 'Beth os' gan newid data • Ymchwiliad 'Beth os' gan newid fformiwla • Defnyddio ffwythiant dyddiad / amser • Gwella diwyg a fformat taenlen/ gwella gridiau/borderi, celloedd wedi'u cyfuno, lapio testun, penynnau neu droedynnau, ffurfiau • Amrywiaeth ehangach o ffwythiannau neu nodweddion mwy cymhleth e.e. Os, Os lluosog [<i>If, Multiple if</i>], ffwythiannau am-edrych, chwilio cyrchnod, tablau colyn, macros, cyfeirnod absoliwt, trefniannau aml-lefel, ac ati.

Trin gwybodaeth

Defnydd ffynonellau gwybodaeth ar-lein

- Defnyddio url i bwrpas
- Defnyddio peiriant chwilio i wahanol bwrpasau
- Rheoli a defnyddio cyfeirnodau i'w gwneud yn haws canfod gwybodaeth eto
- Llwytho i lawr, trefnu a storio gwahanol fathau o wybodaeth

Defnydd ffynonellau eraill o wybodaeth

- Ffynonellau wedi'u hargraffu
- Pobl

Cronfeydd data

- Ychwanegu pedwar maes ychwanegol a data addas
- Cywirdeb a chredadwyedd
- Cael gwybodaeth addas i'r pwrpas gan ddefnyddio trefnu
- Cael gwybodaeth addas i'r pwrpas gan ddefnyddio chwiliadau syml
- Cael gwybodaeth addas i'r pwrpas gan ddefnyddio chwiliadau dwbl (chwiliad o fewn chwiliad)
- Mewnforio data o ffeil CSV (neu debyg)
- Defnyddio gweithredyddion rhesymegol ac o leiaf un nodchwilio
- Ychwanegu techneg dilysu
- Creu ffurflen fwydo data ar sgrin NEU dechneg profi dilysu gyda data gwallus i gynhyrchu neges o wall

E-bost

- Creu ac Anfon e-bost
- Agor ac ateb e-bost
- Gwirio cywirdeb a chredadwyedd
- Anfon at grŵp
- Atodi ffeil wrth e-bost
- Agor atodiad
- Defnyddio rhestr cysylltiadau - ychwanegu, newid a dileu cofnod
- Cyfrannu at flog neu fforwm
- Anfon e-bost ymlaen
- Addasu arddull i fod yn addas i'r pwrpas
- Rheoli grwpiau a ffolderi

Gwerthuso

- Gwerthuso arfer gweithio
- Dadansoddi dulliau ymchwil a data a gasglwyd
- Sylwadau ar addasiadau a wnaed
- Gwerthuso unrhyw ddogfennau a chyflwyniadau a gynhyrchwyd
- Dadansoddi data a gwybodaeth a ddefnyddiwyd wrth fodelu a thrin data
- Gwerthuso offer a thechnegau eraill a ddefnyddiwyd
- Adolygu adborth a roddwyd ac a ddefnyddiwyd
- Awgrymiadau ar gyfer gwelliant

Uned 3 TGCh mewn Sefydliadau
Arholiad 1½ awr (Gradd Unigol 20%)
Bydd CBAC yn gosod arholiad theori bob sesiwn gyda chwestiynau'n ymwneud â chyd-destun busnes a diwydiant. Gall y meysydd canlynol gael eu hasesu:
<u>Data, gwybodaeth a gwybod</u> <ul style="list-style-type: none"> • Amgodio data • Dilysu a gwireddu data
<u>Diwydiannau amlgyfrwng</u> <ul style="list-style-type: none"> • Technegau delweddu digidol • Awduro gwe a chreu gwefannau busnes • Animeiddio
<u>Rhwydweithiau</u> <ul style="list-style-type: none"> • LANau WANau • Topolegau Cylch a Seren • Rhyngrwyd / Allrwyd / Mewnrrwyd • Cysylltu LANau a WANau: Systemau Pwynt Talu integredig a systemau rheoli stoc awtomatig • Manteision / anfanteision yr uchod
<u>Effaith gymdeithasol ac amgylcheddol</u> <ul style="list-style-type: none"> • Patrymau cyflogaeth • Gweithio o'r cartref • Teleweithio • Fideo-gynadledda • Effaith amgylcheddol • Effaith ar gymunedau cyfoethog a thlawd
<u>HClau</u> <ul style="list-style-type: none"> • Systemau gweithredu • GUI • Llinell orchymyn • Llais • Biometreg
<u>Sefydliadau</u> <ul style="list-style-type: none"> • Bancio • systemau e-fasnach (safbwynt busnes) • Cyflogres • Dulliau trin post modern • Prosesau rheoli (adborth) gan gynnwys systemau diogelwch, drysau awtomatig, systemau rheoli traffig, systemau parcio ceir, systemau rheoli tai gwydr ac efelychiad (er enghraifft hedfan neu yrru) • Roboteg a bioneg • Deallusrwydd Artiffisial a systemau arbenigo <p>Dulliau gwarchod data</p>
<u>Diogelwch mewn Sefydliadau</u> <ul style="list-style-type: none"> • Materion cyfreithiol • Materion moesegol • Iechyd a diogelwch
<u>Technolegau Newydd</u>

Uned 4 Datblygu Datrysiadau TGCh Amlgyfrwng
Asesiad dan reolaeth 22.5 awr (Gradd Unigol 30%)
Bydd CBAC yn gosod aseiniad gwahanol bob blwyddyn i'w gwblhau gan ddefnyddio meddalwedd amlgyfrwng. Caiff y meysydd canlynol eu hasesu:
<p><u>Ymchwil</u> Dadansoddi gwefannau neu gyflwyniadau cyferbyniol sy'n bodoli Dadansoddi nodweddion amlgyfrwng sy'n cael eu defnyddio ar wefannau neu gyflwyniadau sy'n bodoli</p>
<p><u>Dylunio</u> Adnabod project amlgyfrwng Dylunio tudalennau gwe neu gyflwyniad</p>
<p><u>Templed a Llywio</u> Creu llwybrau llywio ar gyfer 6 thudalen we neu sleid Golygu dyluniad arddull templed/sleid sy'n bodoli Dewis a defnyddio barn neu offeryn llywio</p>
<p><u>Delweddau graffigol</u> Creu dwy ddelwedd; eu hoptimeiddio a'u cadw mewn fformat priodol i'w defnyddio yn y tudalennau gwe neu'r cyflwyniad</p>
<p><u>Animeiddio neu Ffilm Animeiddiedig</u> Creu bwrd stori o animeiddiad neu ffilm animeiddiedig Creu animeiddiad neu ffilm animeiddiedig</p>
<p><u>Sain</u> Creu a thrafod sain neu gerddoriaeth</p>
<p><u>Technegau Ychwanegol</u> Effeithiau gwe/cyflwyniad Effeithiau animeiddio Effeithiau ffilm Effeithiau sain Elfennau rhyngweithiol Gwella gyda chod gwreiddiol</p>
<p><u>Gwerthuso</u> Gwerthuso arfer gweithio Disgrifiad o addasrwydd ac effeithiolrwydd y nodweddion a ddadansoddir Gwerthuso offer a thechnegau a ddefnyddiwyd Adolygu adborth a roddwyd ac a ddefnyddiwyd Sylwadau ar addasiadau a wnaed Awgrymiadau ar gyfer gwelliant Gwerthusiad o effeithiolrwydd ateb terfynol Ystyriaeth o allbynnu i'r we Ystyriaeth o amserau llwytho i lawr a maint ffeil Cyfiawnhau dewis o ddelwedd, sain ac optimeiddiad animeiddio</p>

3.2 Amcanion Asesu

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos eu gallu i:

- AA1 Adalw, dethol a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o TGCh.
- AA2 Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i gynhyrchu atebion TGCh.
- AA3 Dadansoddi, gwerthuso, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau.

Dyma bwysiad yr amcanion asesu ar draws yr elfennau arholi:

Gradd Unigol	Asesu	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1 Papur Ysgrifenedig	20	15		5	20
Uned 2 Asesiad dan Reolaeth	30		25	5	30
Uned 3 Papur Ysgrifenedig	20	15		5	20
Uned 4 Asesiad dan Reolaeth	30		25	5	30
Cyfanswm y pwysiad	100%	30%	50%	20%	100%

Cwrs Byr	Asesu	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1 Papur Ysgrifenedig	40	30		10	40
Uned 2 Asesiad dan Reolaeth	60		50	10	60
Cyfanswm y Pwysiad	100%	30%	50%	20%	100%

3.3 Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig

Ar gyfer elfennau sy'n cynnwys ysgrifennu estynedig caiff ymgeiswyr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu eu hasesu ar ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig o fewn asesiad cyfan yr elfen honno.

Mae cynlluniau marcio ar gyfer yr elfennau hyn yn cynnwys y meini prawf penodol canlynol ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig:

- darllenadwyaeth y testun, cywirdeb y sillafu, atalnodi a gramadeg, eglurder ystyr
- dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gymhlethdod y testun
- trefnu gwybodaeth yn glir ac yn gydlynus, defnyddio geirfa arbenigol lle y bo'n briodol.

4

DYFARNU, ADRODD AC AIL-SEFYLL

Caiff cymwysterau TGAU Gradd Unigol a Chwrs Byr eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A* i G, gydag A* yn radd uchaf. Caiff cyrhaeddiad disgyblion nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf posibl i gael gradd ei gofnodi fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Mae hon yn fanyleb sy'n cynnwys unedau sy'n caniatáu elfen o asesu fesul cam. Gellir ailsefyll unedau unwaith yn unig (gyda'r canlyniad gorau'n cyfrif) cyn agregu marciau ar gyfer dyfarniad y pwnc. Fodd bynnag, rhaid cymryd o leiaf 40% o'r asesiad ar ddiwedd y cwrs, i fodloni gofyniad am asesiad terfynol, a rhaid i'r canlyniadau o'r asesiad terfynol gyfrannu at ddyfarniad y pwnc. Felly, ni all unrhyw ganlyniadau blaenorol am yr uned(au) sy'n cael eu defnyddio i fodloni'r gofyniad am asesiad terfynol o 40% gyfrannu at ddyfarniad y pwnc, hyd yn oed os oeddent yn well na'r canlyniadau a gafwyd ar ddiwedd y cwrs.

Bydd oes canlyniadau uned ond yn cael ei chyfyngu gan oes y fanyleb. Gall ymgeisydd ailsefyll yr holl gymhwyster fwy nag unwaith.

Caiff canlyniadau unedau unigol eu hadrodd ar raddfa marciau unfurf (GMU) gyda'r cyfatebiaethau gradd canlynol:

GRADD	MWYAFSWM	A*	A	B	C	D	E	F	G
Uned 1	40	36	32	28	24	20	16	12	8
Uned 2	60	54	48	42	36	30	24	18	12
Uned 3	40	36	32	28	24	20	16	12	8
Uned 4	60	54	48	42	36	30	24	18	12

GMU Y DYFARNIAD PWNC

TGAU Gradd Unigol	MWYAFSWM	A*	A	B	C	D	E	F	G
Dyfarniad Pwnc	200	180	160	140	120	100	80	60	40

TGAU Cwrs Byr	MWYAFSWM	A*	A	B	C	D	E	F	G
Dyfarniad Pwnc	100	90	80	70	60	50	40	30	20

5

DISGRIFIADAU O'R GRADDAU

Mae disgrifiadau gradd yn cael eu rhoi er mwyn rhoi syniad cyffredinol am safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr yn debygol o fod wedi'u dangos wrth gael graddau penodol. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys sy'n cael ei nodi gan y fanyleb; ni chawsant eu cynllunio i ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Bydd y radd gaiff ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar yr arholiad gael eu cydbwysu gan well perfformiadau mewn rhai eraill.

Gradd F

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o TGCh, gan gynnwys y defnydd ohoni yn y byd ehangach. Maen nhw'n defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cyfyngedig i fynd i'r afael â phroblemau syml ac i greu datrysiadau sylfaenol gan ddefnyddio offer TGCh. Maen nhw'n dewis ac yn cyflwyno data a gwybodaeth, ac yn defnyddio modelau a chyfarwyddiadau syml. Maen nhw'n dangos peth ymwybyddiaeth o'r angen am arferion diogel a chyfrifol. Maen nhw'n ymateb i anghenion gan ddefnyddio TGCh. Maen nhw weithiau'n adolygu ac yn rhoi sylwadau ar y ffordd y maen nhw ac eraill yn defnyddio TGCh. Maen nhw'n gwneud addasiadau syml i'w gwaith yng ngoleuni'r cynnydd a wneir. Maen nhw'n defnyddio TGCh i gyfathrebu, gan ddangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o bwrpas a chynulleidfa.

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o TGCh, gan gynnwys y defnydd cymdeithasol a masnachol ohoni. Maen nhw'n defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan ddefnyddio offer TGCh yn briodol i fynd i'r afael â phroblemau ac i gynnig datrysiadau TGCh. Maen nhw'n dethol gwybodaeth ac yn prosesu data. Maen nhw'n modelu sefyllfaoedd, yn rhoi cyfarwyddiadau yn eu trefn, yn dethol ac yn defnyddio gwybodaeth, ac yn archwilio syniadau. Maen nhw'n gweithio gan ddefnyddio arferion diogel a chyfrifol. Maen nhw'n dadansoddi ffyrdd o fynd i'r afael ag anghenion gan ddefnyddio TGCh. Maen nhw'n adolygu ac yn gwerthuso'r ffyrdd y maen nhw ac eraill yn defnyddio TGCh. Maen nhw'n adolygu eu gwaith ac yn gwneud gwelliannau lle y bo'n briodol. Maen nhw'n defnyddio TGCh i gyfathrebu'n effeithiol, gan ddangos synnwyr clir o bwrpas ac o'r gynulleidfa.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o amrywiaeth eang o TGCh, gan gynnwys effaith ei defnyddio'n gymdeithasol ac yn fasnachol. Maen nhw'n cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i amrywiaeth o sefyllfaoedd, yn dethol ac yn defnyddio amrywiaeth o offer TGCh yn effeithlon i ddatrys problemau ac i gynhyrchu datrysiadau TGCh effeithiol. Maen nhw'n trin ac yn prosesu data'n effeithlon ac yn effeithiol. Maen nhw'n modelu sefyllfaoedd yn effeithiol, yn rhoi cyfarwyddiadau yn eu trefn, yn dehongli gwybodaeth ac yn archwilio ac yn datblygu syniadau. Maen nhw'n gweithio'n systematig ac yn deall ac yn mabwysiadu arferion diogel a chyfrifol. Maen nhw'n dadansoddi problemau'n systematig, gan adnabod anghenion a chyfleoedd. Maen nhw'n dadansoddi'n feirniadol ac yn gwerthuso'r ffyrdd y maen nhw ac eraill yn defnyddio TGCh. Maen nhw'n adolygu eu gwaith yn iterus ac yn gwneud gwelliannau lle y bo'n briodol. Maen nhw'n defnyddio TGCh i gyfathrebu'n effeithiol, gan ddangos synnwyr clir o bwrpas ac o'r gynulleidfa.

6

GWEINYDDU'R ASESIAID DAN REOLAETH

Caiff rheoliadau ar gyfer asesiad dan reolaeth eu diffinio ar gyfer tri cham yr asesiad:

- gosod y dasg
- cymryd y dasg
- marcio'r dasg

Am bob cam mae'r awdurdodau rheoleiddio wedi nodi lefel benodol o reolaeth i sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd.

Mae'r asesiadau dan reolaeth yn ddi-haen ac mae'r gwahaniaethu'n digwydd yn ôl y canlyniad.

Gosod y dasg – rheolaeth uchel

Gall elfennau asesiad dan reolaeth gynnwys mwy nag un dasg. Bydd CBAC yn darparu'r tasgau. Bydd tasgau'n caniatáu cyfleoedd i gyd-destunoli er mwyn gweddu orau i amgylchiadau penodol y ganolfan.

Ar gyfer unedau 2 a 4 caiff aseiniad newydd o dan reolaeth ei gyhoeddi ym mis Medi bob blwyddyn, gan ddechrau ym mis Medi 2010. Mae pob aseiniad yn ddilys am ddwy flynedd academaidd.

Cymryd y dasg – rheolaeth ganolig

Rheoli dilysrwydd

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r holl waith, ac eithrio ymchwil, o dan oruchwyliaeth anffurfiol yn y dosbarth. Er na fydd yr athro'n gweld pob trawiad bysellfwrdd yn achos pob ymgeisydd, rhaid i'r athro weld digon o waith i wirio mai gwaith yr ymgeisydd ei hun ydyw. Gall ymchwil gael ei gwblhau dan oruchwyliaeth gyfyngedig.

Mae canolfannau'n gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth ddigonol i allu rhoi sicrwydd bod asesiadau a gyflwynir wedi'u seilio ar waith yr ymgeiswyr o dan sylw.

Bydd angen i'r athro sy'n gyfrifol am oruchwyllo gwaith yr ymgeiswyr dystysgrifo bod y marciau sy'n cael eu cyflwyno wedi'u dyfarnu yn unol â'r meini prawf asesu a'i fod yn fodlon mai gwaith yr ymgeisydd o dan sylw yw'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno.

Rheoli adborth

Disgwylir i ymgeiswyr weithio ar eu tasgau dan reolaeth yn annibynnol o'u hathro er y gallant dderbyn adborth ffurfiannol. Nid yw'r ymgeiswyr yn cael drafftio gwaith a'i ailgyflwyno ar ôl iddo gael ei asesu gan yr athro. Bydd, wrth gwrs, achlysuron pan fydd ymyrraeth a chefnogaeth uniongyrchol yr athro'n angenrheidiol. Mewn achosion o'r fath, dylid cofnodi'r manylion ar y taflenni asesu a rhaid i'r marciau a ddyfernir adlewyrchu lefel y gefnogaeth a roddwyd.

Rheoli amser

Rhaid i'r holl asesiadau dan reolaeth gael eu cyflawni o dan amodau lle y mae'r amser wedi'i reoli. Amcangyfrif o hyd y dasg/tasgau ar gyfer Unedau 2 a 4 yw 22½ awr. Mae canolfannau'n cael eu cynghori i gofnodi dyddiad ac amser yr asesiadau, enw'r goruchwyliwr/goruchwylwyr, h.y. yr athro pwnc, a log o unrhyw ddiwyddiadau a gafwyd yn ystod yr asesiadau.

Rheoli cydweithio

Gall ymgeiswyr gydweithio wrth gyflawni gweithgareddau ymchwil a gall gwaith unigolyn gael ei hysbysu gan drafodaeth ag eraill, ond rhaid i ymgeiswyr roi ymateb unigol. Gofynnir i ymgeiswyr gydweithio trwy e-bost neu dechnolegau tebyg gyda 'ffrind arwyddocaol' a fydd yn rhoi adborth ar beth o'r gwaith y byddan nhw'n ei gynhyrchu. Gall y ffrind arwyddocaol fod yn ddefnyddiwr ond fel arfer bydd yn gyd-fyfyriwr.

Adnoddau

Derbynnir y gall rhannau penodol o waith ymgeisydd gael eu cymryd o ffynonellau eraill lle y mae'r rhain yn berthnasol ac yn briodol. Mae hyn yn berffaith dderbyniol ar yr amod fod yr holl achosion o'r fath wedi eu nodi'n glir yn y testun ac wedi eu cydnabod yn llawn. Lle caiff ymadroddion, brawddegau neu ddarnau hwy eu dyfynnu'n uniongyrchol o ffynhonnell, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn defnyddio dyfynodau neu'n cydnabod syniadau a gymerwyd o waith pobl eraill. Bydd ffeil ddata'n cael ei darparu i'w defnyddio yn asesiad dan reolaeth uned 2. Bydd hyn yn rhestru enwau a chyfeiriadau y mae disgwyl i ymgeiswyr eu rhoi mewn cyd-destun fel rhan o'u haseiniad.

Marcio'r dasg – rheolaeth ganolig

Mae athrawon yn marcio'r asesiad dan reolaeth gan ddefnyddio'r cynlluniau marcio a'r canllawiau y bydd CBAC yn eu darparu. **Caiff pob uned ei hasesu yn unol â'r canllawiau sy'n cael eu rhoi yn Atodiad 1 y fanyleb hon.** Bydd yr athro'n marcio'r uned ac yn sicrhau bod digon o anodi a dogfennaeth i alluogi'r safonwr i asesu'r uned yn gywir.

Rhaid i ganolfannau sy'n dilyn y fanyleb hon ddefnyddio safon gyson o farcio ar draws gwahanol grwpiau dysgu ac athrawon. Lle mae mwy nag un athro'n ymwneud ag asesiad, mae ganolfannau'n gyfrifol am safoni asesiadau er mwyn sicrhau un drefn restrol o ymgeiswyr ar gyfer y ganolfan i gyd.

Mae'n angenrheidiol darparu rhyw ddull o safoni asesiadau mewnol o waith ymgeiswyr fel nad oes anghyfiawnder yn digwydd i ymgeiswyr o ganlyniad i amrywiaeth yn y safonau y bydd gwahanol ganolfannau'n eu defnyddio. Ar gyfer y fanyleb hon, caiff asesiadau mewnol unedau 2 a 4 eu safoni trwy archwiliad.

Caiff gwaith ei gyflwyno ar gyfer ei safoni ym mis Mai blwyddyn yr arholiad. Lle y mae llai nag un ymgeisydd ar ddeg wedi'u cyflwyno, caiff yr **holl** ganlyniadau eu hadolygu. Lle y mae'r nifer yn fwy na hyn, caiff sampl ei safoni yn y lle cyntaf.

Bydd addasiadau i'r asesiadau y bydd canolfan yn eu cyflwyno fel arfer yn sicrhau nad yw'r drefn restrol wedi'i newid, a chaiff y rhain eu gwneud i ddod ag asesiadau'r ganolfan yn unol â'r safonau cenedlaethol. Mae CBAC yn cadw'r hawl i ofyn am weld yr holl gyflwyniadau os yw'r broses yn datgelu problemau na oes modd eu datrys gan weithdrefnau safoni arferol.

Bydd safoni CBAC yn gyson â gofynion y Cod Ymarfer TGAU.

Cyflwyno Aseiniadau dan Reolaeth

Gall yr aseiniad dan reolaeth ar gyfer Uned 2 gael ei gyflwyno'n electronig neu fel copi caled. Caiff yr aseiniad dan reolaeth ar gyfer Uned 4 ei gyflwyno'n electronig i'w safoni. Mae manylion pellach i'w cael yn y Canllawiau i Athrawon sydd ar gael gan CBAC.

Dilysu Aseiniadau dan Reolaeth

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lofnodi mai eu gwaith hwy yw'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno ac mae'n ofynnol i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r gwaith sy'n cael ei asesu a bod hyn wedi ei wneud yn yr amodau angenrheidiol. Bydd CBAC yn darparu copi o ffurflen ddilysu, sy'n ffurfio rhan o'r ddalen glawr ar gyfer gwaith pob ymgeisydd. Mae hi'n bwysig nodi bod angen i **bob** ymgeisydd lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai y mae eu gwaith yn ffurfio rhan o'r sampl fydd yn cael ei hanfon at y safonwr. Nid oes angen rhoi gwybod i CBAC am gamymddwyn a ganfuwyd cyn bod yr ymgeisydd yn llofnodi'r datganiad dilysu, ond rhaid delio â hyn yn unol â threfnau mewnol y ganolfan.

Cyn gwneud unrhyw waith tuag at yr Aseiad dan Reolaeth, dylid tynnu sylw ymgeiswyr at yr Hysbysiad i Ymgeiswyr perthnasol gan y CGC. Mae hwn ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk) ac wedi'i gynnwys yn y *Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Gwaith Cwrs/Portffolios*. Ceir mwy o gyfarwyddyd ar atal llên-ladrad yn *Llên-ladrad mewn Arholiadau; Arweiniad i Athrawon/Aseswyr* sydd hefyd ar gael ar wefan y CGC.

7

Y CWRICWLWM EHANGACH**Sgiliau Allweddol, Sgiliau Gweithredol a Sgiliau Hanfodol (Cymru)**

Bydd TGAU TGCh yn darparu amrywiol gyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau hyn, boed hynny wrth baratoi am asesiadau sgiliau gweithredol neu wrth ddarparu cyd-destunau lle y gellir cynhyrchu tystiolaeth ar gyfer portffolios sgiliau allweddol neu sgiliau hanfodol (Cymru). Gellir datblygu'r sgiliau allweddol/hanfodol canlynol trwy gyfrwng y fanyleb hon ar lefelau 1 a 2:

- Cyfathrebu
- Cymhwyso Rhif
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Datrys Problemau
- Gweithio gydag Eraill
- Gwella Eich Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun

Darperir cyfleoedd i olrhain datblygiad y sgiliau hyn yn erbyn y gofynion tystiolaeth sgiliau allweddol/hanfodol yn 'Enghreifftio Sgiliau Allweddol/Hanfodol ar gyfer TGCh, sydd ar gael ar wefan CBAC.

Cyfleoedd i ddefnyddio technoleg

Mae natur TGCh a'r aseiniadau dan reolaeth sy'n cael eu defnyddio i asesu'n rhoi cyfleoedd i ddefnyddio amrywiaeth eang o dechnoleg.

Materion Ysbrydol, Moesol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol

Mae'r fanyleb yn rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr, trwy astudio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, systemau a chymwysiaid, ddatblygu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol fel y maent yn berthnasol i ddefnyddwyr TGCh.

Mae'r fanyleb yn gofyn bod ymgeiswyr yn gallu ystyried yn feirniadol effaith TGCh ar eu bywyd eu hunain ac eraill gan ystyried y materion cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, cyfreithiol, moesegol a moesol, yn benodol mewn perthynas â phatrymau cyflogaeth, yr angen am ailhyfforddi, newidiadau mewn arferion gweithio fel gweithio o'r cartref, teleweithio a fideo-gynadledda. Caiff codau ymddygiad mewn busnes eu hastudio hefyd.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr wybod a deall darpariaethau Deddf Gwarchod Data 1998; astudio'r Ddeddf, hawliau testun y data, y deiliad a'r eithriadau; gwybod a deall pwrpas cyfraith hawlfraint a'r Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron, adnabod troseddau newydd sydd wedi'u creu a'r goblygiadau o ran defnyddwyr cyfrifiaduron.

Gofynnir i ymgeiswyr ystyried manteision ac anfanteision defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar gyfer storio, prosesu a throsglwyddo data. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i sut i warchod data rhag niwed bwriadol sydd wedi'u hachosi gan firysau a mathau eraill o niwed maleisus a sut i warchod data a gaiff eu storio neu eu trosglwyddo rhag eu cyrchu heb awdurdod.

Dinasyddiaeth

Yn y cyd-destun hwn deïllir bod yn cynnwys datblygiad cymdeithasol a moesol, cymryd rhan mewn gweithgaredd cymunedol a datblygu llythrennedd gwleidyddol. Lluniwyd y fanyleb hon i wneud cyfraniad at ddatblygiad gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o ddinasyddiaeth. Yn enwedig, bydd yr Aseiniadau dan Reolaeth yn annog disgyblion i gymryd rhan effeithiol mewn gweithgareddau ysgol a'r gymuned, gan ddangos parodrwydd ac ymrwymiad i werthuso gweithgareddau o'r fath yn feirniadol. Gallai agweddau ar yr Aseiniadau dan Reolaeth, er enghraifft, gael eu cysylltu'n uniongyrchol ag anghenion yr ysgol neu'r gymuned leol, a fyddai'n rhoi i ymgeiswyr y cyfle i drafod problemau sy'n real ac yn ystyrion iddyn nhw'u hunain. Wrth wneud hyn, maen nhw'n cael eu hannog i ddangos cyfrifoldeb personol a chyfrifoldeb grŵp yn eu hagweddau atyn nhw eu hunain ac at eraill: byddai angen iddynt hefyd ystyried yn feirniadol ac yn adeiladol farn eraill wrth ddatblygu a gwerthuso datrysiadau a gynigiwyd.

Mae cynnwys y fanyleb yn gofyn i ymgeiswyr ystyried canlyniadau cymdeithasol a moesol defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Er enghraifft, dylai ymgeiswyr allu awgrymu peryglon posibl i iechyd wrth ddefnyddio cyfrifiaduron a gallu awgrymu dulliau i atal neu i leihau risg peryglon posibl i iechyd mewn swyddfa electronig. Caiff nifer o faterion gan gynnwys newidiadau mewn arferion gweithio, agweddau at hacio, lledaenu firsau, twyll cyfrifiadur a hawlfraint hefyd eu hystyried.

Materion Amgylcheddol

Bydd angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o effaith y defnydd o TGCh ar yr amgylchedd.

Mae cyfleoedd i ystyried materion amgylcheddol yn y fanyleb hon yn digwydd, er enghraifft, trwy astudio systemau rhagweld y tywydd ac effaith TGCh ar gymunedau tlawd a chyfoethog.

Ystyriaeth o Iechyd a Diogelwch

Byddai disgwyl hefyd i ymgeiswyr ystyried materion iechyd a diogelwch wrth ddylunio eu systemau eu hunain, yn enwedig o fewn cyd-destun Aseiniadau dan Reolaeth.

Mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu hefyd yn rhoi cyfleoedd i hyrwyddo menter a sgiliau mentro trwy broses o adnabod cyfle i ddylunio system i fodloni angen penodol, i archwilio i waith dadansoddwyr systemau proffesiynol a'r diwydiant TG, i ddatblygu eu system eu hunain ac yn y pen draw i werthuso'r holl broses. Mae tasgau cysylltiedig ag Aseiniadau dan Reolaeth yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau meddwl yn annibynnol, wrth i ymgeiswyr adnabod ffynonellau gwybodaeth perthnasol a datblygu meini prawf perfformiad penodol ar gyfer eu dyluniadau i lywio'u meddwl.

Y Dimensiwn Ewropeaidd

Lle y mae'n briodol mae'r fanyleb hon yn rhoi cyfleoedd i fynd i'r afael â'r dimensiwn Ewropeaidd, er enghraifft wrth astudio newidiadau mewn arferion gweithio, teleweithio, effaith economaidd e-fasnach, a bod iechyd a diogelwch yn y swyddfa electronig yn gyson â chytundebau cyfredol y GE.

Mae'r dull sy'n cael ei ddefnyddio wrth lunio'r fanyleb yn benthyg ei hun i sefydlu cysylltiadau â meysydd astudio eraill, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â datrys problemau neu ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o TGCh er mwyn cwblhau tasgau ac aseiniadau mewn manylebau TGAU eraill.

Mae'r dull uchod yn cydymffurfio â'r dyheadau a fynegwyd ym Mhenderfyniadau 1998 y Gymuned Ewropeaidd a'r Gweinidogion Addysg yn cwrdd o fewn y Cyngor, yn ymwneud â'r dimensiwn Ewropeaidd mewn addysg ac addysg amgylcheddol, yn enwedig y rhai a fwriedir ar lefel yr aelod-wladwriaethau.

ATODIAD 1 – Asesiad dan Reolaeth

Uned 2: Datrys problemau gyda TGCh Asesiad dan Reolaeth - Cynllun Marcio

<p>Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig Caiff ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig ei asesu fel rhan annatod o werthusiad yr ymgeisydd ac nid fel elfen arunig gan ddefnyddio'r meini prawf penodol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darllenadwyaeth y testun, cywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg, eglurder ystyr. • dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gymhlethdod y testun. • trefnu gwybodaeth yn glir ac yn gydlynol, defnyddio geirfa arbenigol lle y bo'n briodol. 		
Grid Marcio	Cynnwys Dynodol	
Trin Ffeiliau - 5marc		
5	<p>Mae'r ymgeisydd: yn dilyn arferion gweithio effeithlon a diogel gyda ffolderi, isffolderi a ffeiliau. Mae'n gyson yn gwneud defnydd synhwyrol o enwau ac o reoli fersiynau. Mae'n defnyddio strategaeth gwneud copïau wrth gefn ac yn gwneud defnydd priodol o gyfryngau i wneud copïau o ffeiliau a'u storio'n ddiogel gan gynnwys grwpiau e-bost a ffolderi.</p>	<p>Efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio ffolderi, isffolderi a ffeiliau gyda thystiolaeth o ddau weithrediad ffolder gwahanol o leiaf • enwi ffeiliau a ffolderi'n synhwyrol • gwaith copïo wrth gefn i ddyfais allanol • rheoli fersiynau • trefnu negeseuon e-bost, grwpiau a ffolderi.
3-4	<p>wedi defnyddio ffeiliau a ffolderi'n effeithlon ac mae peth tystiolaeth o ddefnyddio confensiynau enwi synhwyrol, rheoli fersiynau, gwneud copïau wrth gefn a defnyddio cyfryngau i ddiogelu data.</p>	
1-2	<p>wedi defnyddio ffeiliau ond efallai heb ddefnyddio ffolderi o gwbl ac nid yw'n enwi ffeiliau a ffolderi'n synhwyrol. Ychydig o dystiolaeth a geir o arferion gweithio effeithlon neu ddiogel, o wneud copïau wrth gefn neu o ddefnyddio cyfryngau.</p>	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	
Ymchwil a chasglu data - 6 marc		
5-6	<p>Mae'r ymgeisydd: wedi defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau priodol gan ddangos barn wrth ddethol a llwytho gwybodaeth i lawr sy'n gywir ac yn addas i'r pwrpas ar gyfer eu defnyddio mewn dogfennau, ffeiliau a thafleini gwaith. Mae wedi defnyddio technegau'n effeithlon i fireinio chwiliadau ac i'w gwneud hi'n hawdd dychwelyd i wefannau defnyddiol.</p>	<p>efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio ffynonellau gwybodaeth ar-lein • defnyddio url i bwrpas • defnyddio peiriannau chwilio i wahanol bwrpasau • rheoli a defnyddio cyfeiriadau i'w gwneud hi'n haws canfod gwybodaeth eto • llwytho i lawr, trefnu a storio gwahanol fathau o wybodaeth • casglu data o ffynonellau wedi'u hargraffu • casglu data oddi wrth bobl eraill.
3-4	<p>wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau priodol i ddethol ac i lwytho i lawr gwybodaeth berthnasol a all fod yn gywir neu'n addas i'r pwrpas gyda pheth tystiolaeth o fireinio chwiliadau a threfnu gwybodaeth.</p>	
1-2	<p>wedi defnyddio ffynonellau i gasglu gwybodaeth, y mae peth ohoni'n berthnasol.</p>	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	

E-bost - 6 marc		
5-6	Mae'r ymgeisydd: yn gallu dethol a defnyddio meddalwedd i agor, creu, anfon ac ymateb i negeseuon e-bost. Mae negeseuon e-bost yn gywir ac yn addas i'r gynulleidfa ac i'r pwrpas. Mae'n gallu agor ac ychwanegu atodiadau a defnyddio rhestr gysylltiadau i anfon at grŵp	Efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol lle y bo'n briodol: <ul style="list-style-type: none"> • agor e-bost • cadw negeseuon e-bost yn effeithlon • creu ac anfon negeseuon e-bost • ateb e-bost • anfon at grŵp; • atodi ffeil wrth e-bost • agor atodiad • defnyddio rhestr gysylltiadau - ychwanegu, newid a dileu cofnod • anfon e-bost ymlaen • addasu arddull i fod yn addas i'r pwrpas • cyfrannu at flog neu fforwm
3-4	yn gallu defnyddio meddalwedd i agor, creu, anfon ac ymateb i negeseuon e-bost. Dim ond rhai pethau anghywir sydd mewn negeseuon e-bost ac maen nhw'n addas i'r gynulleidfa ac i'r pwrpas. Mae'n gallu agor ac ychwanegu atodiadau.	
1-2	gallu agor, creu ac anfon negeseuon e-bost.	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	
Cyfathrebu Gwybodaeth - 16 marc		
12-16	Mae'r ymgeisydd: wedi datblygu dogfen a chyflwyniad gan ddefnyddio cynnwys a nodweddion priodol o'r feddalwedd a ddewiswyd yn effeithiol. Mae data cywir a chredadwy wedi'u bwydo a'u prosesu. Mae sgiliau sylfaenol wedi'u gwella trwy gynnwys amrywiaeth o sgiliau uwch i ddatblygu a fformatio data'n effeithiol. Mae wedi defnyddio adborth gan eraill i wella'u dogfen a'u cyflwyniad fel eu bod yn addas i'r pwrpas ac i'r gynulleidfa.	efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • drafft cyntaf o ddogfen • fersiwn derfynol o'r un ddogfen • cyflwyniad yn rhoi dilyniant o set o ddigwyddiadau gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau data • defnyddio diwyg tudalen priodol a fformatio data e.e. <ul style="list-style-type: none"> ○ ffontiau a meintiau ○ technegau fformatio syml e.e. trwm, alinio testun, ffontiau lliw ○ Wordart neu forderi, awtosiapiau, tablau syml neu dempledi gwreiddiol ○ bwledi neu rifo syml ○ Mewnsood, tocio neu ailfeintio a lleoli delwedd yn addas i'r pwrpas • Cyfuno testun â gwybodaeth ar wahanol ffurfiau o <i>lyfrgell</i> e.e. delweddau, sain, fideo Gif • datblygu a fformatio data e.e. <ul style="list-style-type: none"> ○ gwella tablau gyda borderi, cyfuno celloedd, cyfeiriad neu gylchdroi testun, cylchdroi neu wella trind delweddau, bwledi wedi'u teilwra gan ddefnyddio cyfleusterau <i>mewnol</i>, rhifo gydag isrifo. ○ Defnyddio fformiwlâu mewn dogfen e.e. anfonebau ac ati. ○ Defnyddio ail ffynhonnell wahanol ar gyfer data e.e. delwedd ddigidol, sain, graff gwreiddiol, postgyfuno, ac ati • Penynnau neu droedynnau neu rifo tudalennau neu macros (<i>chwarae a recordio macros</i>).
7-11	wedi datblygu dogfen a chyflwyniad gan ddefnyddio cynnwys ac amrywiaeth o nodweddion o'r feddalwedd a ddewiswyd. Mae data cywir a chredadwy wedi'u bwydo a chafodd sgiliau sylfaenol eu defnyddio gyda rhai sgiliau uwch i ddatblygu, prosesu a fformatio data'n effeithiol. Mae wedi gwella drafft cyntaf eu dogfen a'u cyflwyniad ond efallai nad yw'r rhain yn gwbl addas i'r pwrpas	
1-6	efallai wedi datblygu dogfen a chyflwyniad syml, ond nid ydyn nhw'n addas i'r pwrpas a gall y data fod yn wallus neu'n heb fod yn gredadwy. Defnyddiwyd rhai sgiliau sylfaenol i brosesu data ond mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig.	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	

Modelu - 16 marc	
12-16	Mae'r ymgeisydd: wedi datblygu model taenlen cymhleth sy'n addas i gynulleidfa benodol. Mae data cywir a chredadwy wedi'u bwydo a'u prosesu. Mae sgiliau sylfaenol wedi'u gwella trwy gynnwys amrywiaeth o sgiliau uwch. Mae profion wedi'u cynnal i ddangos bod y model yn addas i'r pwrpas gydag ymchwiliadau 'beth os' yn newid y data a'r fformiwlâu. Mae'r model yn dangos defnydd effeithiol o nodweddion y feddalwedd.
7-11	wedi datblygu model o daenlen ar gyfer cynulleidfa benodol. Mae amrywiaeth o sgiliau sylfaenol a rhai uwch wedi'u defnyddio i fwydo ac i brosesu data cywir a chredadwy. Efallai nad oedd rhai cyfrifiadau'n effeithlon. Mae peth profi wedi'i gynnal ond efallai nad yw'r model yn addas i'r pwrpas. Mae ymchwiliad 'beth os' wedi'i ddefnyddio.
1-6	wedi datblygu model o daenlen ond efallai nad yw'r data'n gywir neu efallai nad yw'n gredadwy. Mae rhai sgiliau sylfaenol wedi'u defnyddio i brosesu data ac mae tystiolaeth gyfyngedig bod y model wedi'i brofi gan ddefnyddio ymchwiliadau i ddangos ei fod yn addas i'r pwrpas.
0	Nid yw'n haeddu credyd.

efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:
 Datblygiad y model.
 Bwydo data.
 Amrywiaeth o sgiliau sylfaenol e.e.

- fformatio, e.e. arian cyfred, neu leoedd degol %
- defnyddio fformiwlâ gyda gweithredydd sengl
- ffwythiannau syml e.e. SWM, CYFARLEDD, MWYAF, LLEIAF, HAP [SUM, AVERAGE, MAX, MIN RAND], ac ati
- cyfeirnod perthynol
- creu siart gyda theitl priodol, allwedd, labeli echelin a fformatio.
- ymchwiliad 'Beth os' gan newid data
- ymchwiliad 'Beth os' gan newid fformiwlâ.

Amrywiaeth o sgiliau uwch e.e.

- diwyg a fformat gwell yn y daenlen
- gridiau/borderi gwell, cell wedi'i chyfuno, lapio testun, penynnau a throedynnau.
- ffwythiannau uwch e.e. OS, AMEDRYCH, CYFRIF [IF, LOOKUP, COUNT], ac ati.
- cyfeirnod absoliwt
- ceisio nod
- tablau colyn
- macros.

Profi.

Trin data - 16 marc		
12-16	<p>Mae'r ymgeisydd: wedi mewnforio data a'u defnyddio wrth ddatblygu ffeil ddata sy'n addas i'r gynulleidfa benodol. Mae data cywir a chredadwy wedi'u bwydo a'u prosesu. Mae sgiliau sylfaenol wedi'u gwella trwy gynnwys amrywiaeth o sgiliau uwch. Mae profi wedi'i gynnal i ddangos bod y ffeil ddata'n addas i'r pwrpas ac y mae'n bosib ei defnyddio hefyd i chwilio, trefnu ac argraffu rhestrau. Mae'r ffeil ddata'n dangos defnydd effeithiol o nodweddion y feddalwedd. Caiff chwiliadau, trefnu a dilysu cymhleth eu cynnal ar gyfer pwrpasau defnyddiol sy'n cael eu nodi.</p>	<p>Efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol: Mewnforio data o ffeil csv. Amrywiaeth o sgiliau sylfaenol e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • ychwanegu maes allweddol • ychwanegu meysydd gydag enwau maes addas • ychwanegu mathau data addas • ychwanegu data addas • golygu a dileu cofnod • cael gwybodaeth addas i'r pwrpas gan ddefnyddio trefnu • cael gwybodaeth addas i'r pwrpas gan ddefnyddio chwiliad syml.
7-11	<p>wedi datblygu ffeil ddata gan ddefnyddio data wedi'u mewnforio sy'n addas i'r pwrpas a roddwyd. Mae amrywiaeth o sgiliau sylfaenol a rhai uwch wedi'u defnyddio i fwydo ac i brosesu data cywir a chredadwy. Mae peth profi wedi'i gynnal ond efallai nad yw chwiliadau, trefnu neu ddilysu'n effeithlon, neu nad oes ganddynt bwrpas neu nad ydynt yn gweithio'n gywir.</p>	<p>Amrywiaeth o sgiliau uwch e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • creu ffurflen fwydo data ar-sgrin • ychwanegu techneg ddilysu • profi bod dilysu'n gweithio • defnyddio gweithredyddion rhesymegol ac o leiaf un nodchwilio • trefnu ar feysydd lluosol • cael gwybodaeth addas i'r pwrpas gan ddefnyddio chwiliadau dwbl (chwiliad o fewn chwiliad) • defnyddio gweithredyddion rhesymegol sydd wedi'u hegluro'n glir • defnyddio nodchwilio mewn ymholiadau i bwrpas sydd wedi'i ddiffinio
1-6	<p>wedi datblygu ffeil ddata ond efallai nad oes rhai meysydd wedi'u hychwanegu. Efallai bod data'n anghywir neu heb fod yn gredadwy. Mae rhai sgiliau sylfaenol wedi'u defnyddio i brosesu data ac efallai bod y ffeil ddata wedi'i phrofi â chwiliad neu drefnu syml. Mae tystiolaeth gyfyngedig ei bod yn addas i'r pwrpas.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • defnyddio adroddiadau • botymau gorchymyn ar ffurflenni neu facros neu adroddiadau • gwelliannau VB.
0	<p>Nid yw'n haeddu credyd.</p>	

Gwerthuso - 15 marc	
11-15	<p>Mae'r ymgeisydd: wedi ysgrifennu gwerthusiad cydlynol, clir gan wneud sylwadau effeithiol ar ganlyniadau'r holl dasgau gan gynnwys adborth a roddwyd ac a dderbyniwyd ganddynt. Mae wedi dadansoddi'r tasgau a'r dulliau y maen nhw wedi'u defnyddio ac wedi awgrymu gwelliannau effeithiol, yn rhai ffurfiannol a chrynodol, i'w gwaith. Mae nhw'n defnyddio terminoleg briodol a sillafu, atalnodi a gramadeg cywir.</p>
6-10	<p>wedi gwneud sylwadau, gan werthuso canlyniad rhai o'r tasgau gan gynnwys adborth a roddwyd neu a dderbyniwyd. Mae peth dadansoddiad o'r tasgau a'r dulliau y maen nhw wedi'i ddefnyddio ond mae diffyg eglurder yn y sylwadau a'r awgrymiadau am welliannau. Maen nhw wedi defnyddio rhai termau lle roedd yn briodol ond mae rhai gwallau o ran sillafu, atalnodi a gramadeg.</p>
1-5	<p>wedi defnyddio iaith bob dydd ac mae'r sylwadau'n brin o eglurder, wedi eu trefnu'n wael gyda gwallau sylweddol yn y sillafu, yr atalnodi a'r gramadeg.</p>
0	<p>Nid yw'r sylwadau'n haeddu credyd.</p>

Gall y sylwadau fod yn iterus a/neu'n grynodol. Efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi beth ddylai gael ei werthuso ond gallai ymgeisydd gynnwys y canlynol:

- gwerthusiad o arferion gwaith
- dadansoddiad o gamau o fewn tasgau
- dadansoddiad o ddulliau ymchwil a data a gasglwyd
- sylwadau ar addasiadau a wnaed
- gwerthusiad o unrhyw ddogfennau a chyflwyniadau a gynhyrwyd
- dadansoddiad o ddata a gwybodaeth a ddefnyddiwyd wrth fodelu a thrin data
- gwerthusiad offer a thechnegau eraill a ddefnyddiwyd
- adolygiad o adborth a roddwyd ac a dderbyniwyd
- awgrymiadau ar gyfer gwella.

Uned 2 Datrys Problemau gyda TGCh Amlinelliad o'r Cynllun Asesu	
Trin ffeiliau	5
Ymchwil a chasglu data	6
E-bost	6
Gwybodaeth cyfathrebu	16
Modelu	16
Trin data	16
Gwerthuso	15
Cyfanswm	80

Uned 4: Datblygu Datrysiadau TGCh Amlgyfrwng Asesiad dan Reolaeth - Cynllun Marcio

<p>Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig Caiff ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig ei asesu fel rhan annatod o werthusiad yr ymgeisydd ac nid fel elfen arunig gan ddefnyddio'r meini prawf penodol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darllenadwyaeth y testun, cywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg, eglurder ystyr. • dethol ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas ac i gymhlethdod y testun. • trefnu gwybodaeth yn glir ac yn gydlynol, defnyddio geirfa arbenigol lle y bo'n briodol. 		
Grid Marcio		Cynnwys Dynodol
Arferion gwaith effeithlon - 5 marc		
5	<p>Mae'r ymgeisydd: yn dilyn arferion gweithio effeithlon a diogel gyda ffolderi, isffolderi a ffeiliau. Mae'n gyson yn gwneud defnydd synhwyrol o enwau ac o reoli fersiynau. Mae'n defnyddio strategaeth gwneud copïau wrth gefn ac yn gwneud defnydd priodol o gyfryngau i wneud copïau o ffeiliau a'u storio'n ddiogel. Mae wedi rhoi log cyflawn o'r ffynonellau a gafodd eu defnyddio.</p>	<p>Efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio ffolderi, isffolderi a ffeiliau • enwi ffeiliau a ffolderi'n synhwyrol • gwneud copïau wrth gefn o waith i ddyfais allanol • rheoli fersiynau • log ffynonellau.
3-4	<p>wedi defnyddio ffeiliau a ffolderi'n effeithlon ac mae peth tystiolaeth o ddefnyddio confensiynau enwi synhwyrol, rheoli fersiynau, gwneud copïau wrth gefn a defnyddio cyfryngau i ddiogelu data. Darparwyd log o'r ffynonellau a gafodd eu defnyddio.</p>	
1-2	<p>wedi defnyddio ffeiliau ond efallai heb ddefnyddio ffolderi o gwbl ac nid yw'n enwi ffeiliau a ffolderi'n synhwyrol. Ychydig o dystiolaeth a geir o arferion gweithio effeithlon neu ddiogel, o wneud copïau wrth gefn neu o ddefnyddio cyfryngau. Mae'r log ffynonellau naill ai'n absennol neu'n gyfyngedig.</p>	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	

Dadansoddi ac Ymchwil - 12 marc		
9-12	Mae'r ymgeisydd: wedi dadansoddi o leiaf ddwy wefan neu gyflwyniad gwrthgyferbyniol sy'n bodoli gan wneud sylwadau perthnasol ar bwrpas, arddull cwmni a chynulleidfa darged pob un. Mae wedi disgrifio'n fanwl amrywiaeth eang o nodweddion amlgyfrwng sy'n cael eu defnyddio ar y gwefannau neu'r cyflwyniadau hyn, gan gymharu a chyferbynnu cynllun, diwyg a nodweddion sy'n cael eu defnyddio ym mhob un.	<p>Efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol ar gyfer gwefan neu gyflwyniad:</p> <p>Disgrifiad o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bwrpas • arddull cwmni • cynulleidfa darged. <p>Cymharu a chyferbynnu cynllun a diwyg sy'n cael eu defnyddio ym mhob un, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • llywio • dyluniad templed • hypergysylltau neu fannau poeth • angorau neu nodau tudalen • botymau hofran • sylwadau naid • lliwiau naws • nifer y tudalennau • nodweddion rhyngweithiol, ac ati. <p>Casgliad o dystiolaeth o enghreifftiau o nodweddion amlgyfrwng sy'n cael eu defnyddio ar y gwefannau hyn a/neu gyflwyniadau sy'n bod, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • baneri a/neu animeiddiadau • eiconau gwe • delweddau digidol • animeiddiadau • lluniau symud • sain. <p>Disgrifiad yn manylu math a maint y nodweddion hyn.</p>
5-8	wedi dadansoddi o leiaf ddwy wefan neu gyflwyniad gwrthgyferbyniol sy'n bod gan wneud sylwadau perthnasol ar bwrpas, arddull cwmni a chynulleidfa darged pob un. Maen nhw wedi disgrifio amrywiaeth o nodweddion amlgyfrwng sy'n cael eu defnyddio ar y gwefannau neu gyflwyniadau hyn, gan gymharu neu wrthgyferbynnu peth o'r cynllun, diwyg a nodweddion sy'n cael eu defnyddio.	
1-4	wedi rhoi cynnig ar ddadansoddi dau o'r gwefannau neu gyflwyniadau gwrthgyferbyniol gan roi rhai sylwadau ar bwrpas, arddull cwmni neu gynulleidfa darged. Maen nhw wedi disgrifio rhai o'r nodweddion amlgyfrwng sy'n cael eu defnyddio ar y gwefannau hyn.	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	

Dylunio - 5 marc

5	Mae'r ymgeisydd: wedi datblygu ateb cyflawn i'r dasg amlgyfrwng, wedi esbonio sut mae'n addas i'r gynulleidfa ac i'r pwrpas ac wedi cyfiawnhau eu penderfyniadau dylunio. Mae wedi rhoi dyluniadau manwl ar gyfer eu hateb gan gynnwys prif arddull tudalen a lliwiau naws.	<p>Efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi ateb i'r dasg amlgyfrwng • egluro sut neu pam mae eu hateb yn addas i'r pwrpas ac i'r gynulleidfa • dyluniad prif arddull tudalen • dyluniad o liwiau naws.
3-4	wedi datblygu ateb manwl i'r dasg amlgyfrwng gyda pheth esboniad o sut mae'n addas i'w gynulleidfa ac i'r pwrpas neu gyfiawnhad o'u penderfyniadau dylunio. Mae wedi darparu dyluniadau ar gyfer prif arddull tudalen a lliwiau naws.	
1-2	wedi datblygu ateb i'r dasg amlgyfrwng ac wedi rhoi dyluniadau ar gyfer prif dudalen neu liwiau naws.	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	

Datblygiad - Ttempl a Llywio - 12 marc		
9-12	Mae'r ymgeisydd: wedi datblygu llwybrau llywio effeithlon ar gyfer y tudalennau gwe neu'r cyflwyniad. Mae wedi golygu templed /dyluniad arddull sleid sy'n bodoli ac wedi gwneud defnydd da o liwiau arddull cwmni. Mae wedi dewis ac wedi defnyddio bar llywio neu offer sydd ar gael yn y feddalwedd a ddewiswyd ganddynt ac wedi datblygu offer llywio safonol gan gynnwys cynllun lliwiau, hypergysylltau ac eiconau. Mae wedi rhoi testun addas i mewn.	<p>efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol lle y bo'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • creu llwybrau llywio ar gyfer 6 thudalen we neu sleid • golygu dyluniad arddull templed/sleid sy'n bodoli • defnyddio lliwiau arddull cwmni • dewis a defnyddio bar neu declyn llywio • defnyddio offer llywio o lyfrgell neu gyfleusterau a ddarparwyd gan y feddalwedd • golygu'r teclyn llywio safonol i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • cynllun lliwiau • hypergysylltau • eiconau • testun addas i'r pwrpas.
5-8	wedi datblygu llwybrau llywio ar gyfer y tudalennau gwe neu'r cyflwyniad. Mae wedi golygu templed /dyluniad arddull sleid sy'n bodoli gan wneud peth defnydd o liwiau arddull cwmni. Mae wedi defnyddio bar llywio neu offer sydd ar gael yn y feddalwedd a ddewiswyd ganddynt ac wedi golygu teclyn llywio safonol. Mae testun addas wedi'i roi i mewn.	
1-4	wedi datblygu rhai tudalennau gwe neu sleidiau cyflwyno. Mae peth tystiolaeth o ddefnyddio lliwiau arddull cwmni ond efallai bod y llywio ar goll neu'n anghyflawn. Mae testun wedi'i roi i mewn ond nid yw'n addas i'r gynulleidfa neu i'r pwrpas.	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	
Datblygiad - delweddau graffigol - 10 marc		
8-10	Mae'r ymgeisydd: wedi creu dwy ddelwedd y mae un ohonyn nhw'n logo neu'n eicon gwe. Mae gan un o'r delweddau dair haen ac mae'r ddwy wedi'u hoptimeiddio a'u cadw ar fformat addas. Mae'r delweddau'n dangos defnydd effeithlon o amrywiaeth eang o nodweddion y feddalwedd ac maen nhw'n addas i'r pwrpas ac i'r gynulleidfa.	<p>Efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • un ddelwedd: logo neu eicon gwe wedi'i greu gan yr ymgeisydd • ail ddelwedd wedi'i greu gan yr ymgeisydd • mae'n rhaid bod un o'r delweddau hyn wedi'i chreu ag o leiaf dair delwedd. • mae'r ddwy ddelwedd wedi'u hoptimeiddio a'u cadw ar fformat priodol • amrywiaeth o offer meddalwedd e.e. <ul style="list-style-type: none"> • siapiau safonol a/ neu linellau • offer llenwi • offer brwsh • offer testun • offer dethol • offer aflunio • offer meintio neu docio • patrymu ailadroddus neu glonio • offer tryloywder
4-7	wedi creu dwy ddelwedd y mae un ohonyn nhw'n logo neu'n eicon gwe. Mae gan un o'r delweddau haenau ac mae'r ddwy wedi'u cadw ar fformat addas. Mae'r delweddau'n dangos defnydd o amrywiaeth o nodweddion y feddalwedd ac maen nhw'n addas i'r pwrpas ac i'r gynulleidfa.	
1-3	wedi creu dwy ddelwedd gan ddefnyddio nodweddion y feddalwedd ond efallai nad ydyn nhw'n addas i'r pwrpas nac i'r gynulleidfa.	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	

Datblygiad - Animeiddio neu ffilm animeiddiedig - 10 marc		
8-10	Mae'r ymgeisydd: wedi creu bwrdd stori ar gyfer animeiddiad neu ffilm animeiddiedig ac wedi datblygu'r animeiddiad hwn gydag o leiaf dair techneg neu elfen. Mae'r animeiddiad yn addas i'r pwrpas ac i'r gynulleidfa ac yn cynnwys esboniad o'r amseriad a/neu gyfradd fframiau a ddefnyddiwyd a baner animeiddiedig sy'n symud sy'n cyfuno testun a graffeg.	<p>efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bwrdd stori ar gyfer animeiddiad neu ffilm animeiddiedig • animeiddiad neu ffilm animeiddiedig wedi'i chreu gan yr ymgeisydd <p>gydag un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • animeiddiad o glipluniau gan ddefnyddio tystiolaeth o o leiaf dair techneg wahanol, e.e. clonio, haenau tryloyw, gwaith rhyngluniau, ac ati. • animeiddiad stop-ffrâm gydag o leiaf 3 ffrâm yn dangos symudiad • animeiddiad fflach gydag o leiaf 3 ffrâm yn dangos symudiad <p>ac</p> <ul style="list-style-type: none"> • eglurhad o amser a/neu'r gyfradd fframiau a ddefnyddiwyd • baner animeiddiedig sy'n symud sy'n cyfuno testun a graffeg.
4-7	wedi creu bwrdd stori ar gyfer animeiddiad neu ffilm animeiddiedig ac wedi datblygu'r animeiddiad hwn gan ddefnyddio technegau neu elfennau sydd ar gael yn y feddalwedd. Mae'r animeiddiad yn addas i'r pwrpas neu i'r gynulleidfa ac yn cynnwys baner animeiddiedig sy'n symud sy'n cyfuno testun a graffeg nad yw efallai'n gweithio'n iawn. Mae peth ymdrech wedi'i gwneud i esbonio'r amseru a/neu'r gyfradd fframiau a ddefnyddiwyd.	
1-3	efallai wedi creu bwrdd stori ac mae peth tystiolaeth o animeiddiad wedi'i greu gan yr ymgeisydd.	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	
Datblygiad - Sain - 3 marc		
3	Mae'r ymgeisydd: wedi creu ac wedi trin sain, cerddoriaeth neu lefaru sy'n addas i'r pwrpas ac i'r gynulleidfa.	<p>efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnydd o sain, cerddoriaeth neu lefaru • golygu sain, cerddoriaeth neu lefaru i gynhyrchu ffeil sain wreiddiol.
2	wedi creu a thrin sain, cerddoriaeth neu lefaru.	
1	wedi defnyddio sain, cerddoriaeth neu lefaru.	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	

Datblygiad - Technegau ychwanegol - 9 marc		
7-9	Mae'r ymgeisydd: wedi gwella eu gwaith gyda'r defnydd o amrywiaeth eang o offer neu dechnegau ychwanegol a all fod yn: effeithiau gwe/cyflwyniad; effeithiau animeiddio; effeithiau ffilm; effeithiau sain; elfennau rhyngweithiol; neu wella gyda chod gwreiddiol. Mae pob un yn addas i'r pwrpas ac i'r gynulleidfa.	<p>efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi manylion ond gallai'r ymgeisydd gynnwys tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effeithiau gwe/cyflwyniad: <ul style="list-style-type: none"> ○ botymau hofran neu fannau poeth polygon ○ effeithiau arbennig wedi'u hychwanegu at y gwrthrychau e.e. cysgod, llewyrch allanol / wedi'i godi. ○ defnyddio cwmp-flychau neu ddewisleni chwyddo neu leihau o leiaf ddau ddewis ○ hypergysylltau ar ffurf testun neu graffeg i ffeiliau allanol. • Effeithiau animeiddio: <ul style="list-style-type: none"> ○ mwy o animeiddio cymhleth o o leiaf chwe ffrâm neu dechnegau neu gymysgedd o'r ddau ○ defnydd o gefndir neu fframiau troshaen ○ technegau ailadrodd neu ddolennu • Effeithiau ffilm: <ul style="list-style-type: none"> ○ teitl neu gredydau ○ fideo neu effeithiau trawsnewid • Effeithiau sain: <ul style="list-style-type: none"> ○ amlenni, adlais, ac ati ○ dolennu neu ailadrodd ○ traciau troshaen ○ podledu • Elfen(nau) rhyngweithiol o lyfrgell • Gwella gyda chod gwreiddiol e.e. html, visual basic. <p><i>DS. Gall technegau/offer eraill fod yn dderbyniol os gwnewch gais i CBAC.</i></p>
3-6	wedi gwella ei gwaith gyda'r defnydd o amrywiaeth o offer neu dechnegau ychwanegol a all fod yn: effeithiau gwe/cyflwyniad; effeithiau animeiddio; effeithiau ffilm; effeithiau sain; elfennau rhyngweithiol; neu wella gyda chod gwreiddiol. Mae pob un yn addas i'r pwrpas neu i'r gynulleidfa	
1-3	wedi defnyddio peth offer neu dechnegau ychwanegol a all fod yn: effeithiau gwe/cyflwyniad; effeithiau animeiddio; effeithiau ffilm; effeithiau sain; neu elfennau rhyngweithiol.	
0	Nid yw'n haeddu credyd.	

Gwerthuso - 14 marc		
11-14	Mae'r ymgeisydd: wedi ysgrifennu gwerthusiad cydlynol, clir gan wneud sylwadau effeithiol ar ganlyniadau'r holl dasgau gan gynnwys adborth a roddwyd ac a dderbyniwyd ganddynt. Mae wedi awgrymu gwelliannau effeithiol, yn rhai ffurfiannol a chrynodol , i'w gwaith. Mae'n defnyddio terminoleg briodol a sillafu, atalnodi a gramadeg cywir.	<p>Gall y sylwadau fod yn iterus a/neu'n grynodol.</p> <p>Efallai bod yr aseiniad dan reolaeth yn nodi beth ddylai gael ei werthuso ond gallai ymgeisydd gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwerthuso arfer gweithio • disgrifiad o addasrwydd ac effeithiolrwydd y nodweddion a ddadansoddir • gwerthuso offer a thechnegau a ddefnyddiwyd • adolygu adborth a roddwyd ac a ddefnyddiwyd • sylwadau ar addasiadau a wnaed • awgrymiadau ar gyfer gwelliant • gwerthusiad o effeithiolrwydd ateb terfynol • ystyriaeth o allbynnu i'r we • ystyriaeth o amserau llwytho i lawr a maint ffeil • cyfiawnhau dewis o ddelwedd, sain ac optimeiddiad animeiddio.
6-10	wedi gwneud sylwadau, gan werthuso canlyniad rhai o'r tasgau gan gynnwys adborth a roddwyd neu a dderbyniwyd. Rhai awgrymiadau ar gyfer gwelliannau wedi'u gwneud ond mae diffyg eglurder yn y sylwadau. Mae wedi defnyddio rhai termau lle roedd yn briodol ond mae rhai gwallau o ran sillafu, atalnodi a gramadeg.	
1-5	wedi defnyddio iaith bob dydd ac mae'r sylwadau'n brin o eglurder, wedi eu trefnu'n wael gyda gwallau sylweddol yn y sillafu, yr atalnodi a'r gramadeg.	
0	Nid yw'r sylwadau'n haeddu credyd.	

Uned 4 Datblygu Datrysiadau TGCh Amlgyfrwng Amlinellid o'r Cynllun Asesu	marc
Arfer gwaith effeithlon	5
Dadansoddi ac Ymchwil	12
Dylunio	5
Datblygiad – Tabled a Llywio	12
Datblygiad – Delweddau graffigol	10
Datblygiad - Animeiddio neu ffilm animeiddiedig	10
Datblygiad –Sain	3
Datblygiad – Technegau ychwanegol	9
Gwerthuso ac Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig	14
Cyfanswm	80